Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DEDDF Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU)

Asesiad Effaith Integredig

**Gorffennaf 2025**

## CYNNWYS


1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ....... 3
2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ....... 8
3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ....... 9
4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ....... 10
5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ....... 12
6. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol? ....... 15
7. Casgliad ....... 15

Atodiad A - Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ....... 22

Atodiad B - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ....... 42

Atodiad C - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ....... 56

Atodiad D – Asesiad Dyletswydd Economiadd-Gymdeithasol ....... 61

Atodiad E – Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ....... 68

Atodiad F – Asesiad o’r Effaith ar Lwyth Gwaith Staff Addysg Ysgolion ....... 70

# 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## 1.1 Hirdymor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y Ddeddf honno weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Datblygwyd strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y system addysg rôl allweddol wrth wireddu'r targedau o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg i 20% erbyn 2050. Un o nodau'r strategaeth yw 'creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus'. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (y cyfeirir ato fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen) yn ceisio cyfrannu at gamau i gyflawni'r targedau hyn drwy ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru, ni waeth beth fo categori iaith yr ysgol y maent yn ei mynychu na ym mha gymuned y maent yn byw. Mae'r system addysg gyfredol yn arwain at ddeilliannau ieithyddol tra gwahanol yn ddibynnol ar gyfrwng iaith yr addysg. Rydym am i'r system addysg gofleidio'r Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i holl ddisgyblion Cymru, a thrwy hynny leihau'r bwlch mewn deilliannau ieithyddol. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth addysg Gymraeg ym mhob ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod gorfodol yn yr ysgol. Yn y tymor hir, byddai hyn yn cyfrannu at wella sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys y gweithlu addysg, gyda mwy o ddisgyblion yn mynd i'r gweithle gyda gwell sgiliau Cymraeg.

Yn benodol:

- Bydd rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr, a chyfraniad y system addysg statudol at wireddu'r targed hwnnw, yn sail gref wrth inni ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru.
- Bydd cyflwyno Cod er mwyn pennu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn cynnig dealltwriaeth a rennir i ddysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o daith unigolyn wrth iddo ddysgu Cymraeg.
- Bydd creu system statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt yn rhoi fframwaith i ysgolion wneud cynnydd, boed hynny'n golygu cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn categori, neu symud i gategori iaith uwch. Bydd categoreiddio ysgolion hefyd yn cynnig

eglurder a chysondeb i ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid mewn perthynas â’u nodau dysgu Cymraeg.

- Ymhlith pethau eraill, bydd Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn nodi camau mewn perthynas â chynyddu a gwella addysg Gymraeg; hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”; sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg; a chynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i bobl o bob oedran.
- Bydd Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCA lleol) pob awdurdod lleol yn nodi sut y bydd yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg mewn ysgolion yn ei ardal, yn ogystal â datblygu ei weithlu addysg Gymraeg. Bydd yn ymateb i dargedau a osodwyd ar gyfer yr awdurdod lleol yn y Fframwaith Cenedlaethol ac yn ystyried ffactorau sy'n berthnasol i'r ardal leol. Bydd hyn yn gosod y seiliau ar gyfer hwyluso’r daith ieithyddol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Bydd hyrwyddo’r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” a hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg yn gosod sail gref i awdurdod lleol ehangu’r mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru, gan gynnwys disgyblion sy’n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd dysgu sylfaen.
- Y nod wrth sefydlu corff cenedlaethol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yw cefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, fel y gall mwy o bobl ddysgu’r iaith.

### 1.2 Atal

Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn ehangu mynediad plant a phobl ifanc yng Nghymru at y Gymraeg ac yn cynyddu ac yn gwella darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru dros amser, gan gyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050.* Bydd hyn yn arwain at gynyddu gallu Cymraeg mwy o ddisgyblion mewn addysg statudol ar hyd a lled Cymru, gan gyfrannu at hybu’r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn creu cyfleoedd i gynllunwyr addysg feithrin dealltwriaeth well o pam fod rhai grwpiau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi.

Byddai hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg drochi hwyr yn Gymraeg yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran iaith addysg eu plant, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at ganran y dysgwyr sy’n cael addysg Gymraeg yn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”.

### 1.3 Integreiddio

Mae cysylltiadau darpariaethau penodol y Ddeddf ag agendâu polisi cyhoeddus wedi eu hamlinellu isod:

- Darparu a hyrwyddo addysg drochi hwyr yn Gymraeg: Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'Ehangu'r rhaglen drochi'
- Y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg: Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cyfeirio at 'Sefydlu a gweithredu un continwwm dysgu Cymraeg.'
- Mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae'r Cod Cynnydd yn nodi bod yn rhaid i gwricwlwm ysgol sicrhau bod darpariaeth i bob disgybl wneud cynnydd yn ei ddysgu.

### 1.4 Cydweithio

Ar gyfer darpariaethau penodol y Ddeddf, caiff y prif bartneriaid sydd â diddordeb cyffredin yn y darpariaethau hyn eu nodi isod, yn ogystal â'r ffordd y maent wedi cyfrannu at eu datblygu:

- Y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, prifysgolion ac awdurdodau lleol. Mae cynrychiolwyr wedi cyfrannu drwy fod yn rhan o Grŵp Gorchwyl.
- Categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt: Awdurdodau lleol, penaethiaid ysgolion, cyrff llywodraethu ysgolion, rhieni a dysgwyr. Mae gwaith ymgysylltu ag ysgolion wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r system gategoreiddio yng nghyd-destun y canllawiau anstatudol, a chroesawyd y syniad o gynhyrchu canllawiau manylach. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn hefyd ynghylch ei rôl arfaethedig.
- Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg: Mae trafodaethau gydag awdurdodau lleol wedi cael eu cynnal mewn fforymau addysg awdurdodau lleol, ac mae awdurdodau lleol wedi croesawu i raddau helaeth y syniad y caiff cyfeiriad strategol ei osod gan Lywodraeth Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ei adroddiad ar 'Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg', Mai 2023, fod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith cenedlaethol a fydd yn creu cyswllt rhwng y targedau cenedlaethol a'r targedau ar lefel awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg (argymhelliad 4). I lywio ei adroddiad, gwrandawodd y pwyllgor ar dystiolaeth lafar ac fe graffodd ar dystiolaeth ysgrifenedig gan y sefydliadau canlynol: Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Colegau Cymru, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Dyfodol i'r Iaith, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG), Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), Mudiad Meithrin, NASUWT, Cymdeithas yr Iaith, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW).
- Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau lleol): Mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu drwy ddatblygu'r CSCAau a'u rhoi ar waith, a rhoi adborth ar y system honno. Cafodd pob awdurdod lleol wahoddiad i gyfrannu at ddatblygu canllawiau ynghylch dadansoddi data am y gweithlu

addysg a manteisiodd pedwar ar y cyfle hwn. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn ynghylch ei rôl fonitro.

- Cymorth i ddysgu Cymraeg: Cynhaliwyd trafodaethau gydag ymarferwyr yn y sector addysg statudol ac ôl-statudol, awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, prifysgolion yn eu rôl fel darparwyr dysgu Cymraeg i oedolion ac fel canolfannau ymchwil a chaffael iaith, sefydliadau Addysg Bellach.

## 1.5 Cynnwys

Ar gyfer darpariaethau penodol y Ddeddf, caiff y prif bartneriaid y bydd y darpariaethau yn effeithio arnynt, a'r ffordd y maent wedi cyfrannu at eu datblygu, eu nodi isod. Bu gwaith ymgysylltu â’r partneriaid hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori.

- Y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg: Ymarferwyr, dysgwyr, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Categoreiddio ysgolion yn yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt: Mae ymgysylltu rheolaidd wedi bod gydag ysgolion, yn enwedig drwy’r Grŵp Categoreiddio Cenedlaethol, lle croesawyd y cynnig o gyhoeddi canllawiau mwy manwl ar gyfer categoreiddio. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn hefyd am ei rôl arfaethedig.
- Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg: Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn berthnasol i waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, awdurdodau lleol, Estyn, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliadau Addysg Bellach, Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), y Cyngor Gweithlu Addysg, darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon a phrifysgolion. Hysbysodd tystiolaeth gan nifer o'r cyrff hyn adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg.
- Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau lleol): Awdurdodau lleol ac Estyn. Bydd y darpariaethau hefyd yn effeithio ar gonsortia rhanbarthol, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion.
- Cymorth i ddysgu Cymraeg: Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghylch y ffordd y gellid cefnogi camau i gyflawni amcanion y Ddeddf.

Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu a ddisgrifir uchod, comisiynwyd ymarfer ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig. Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai ar ran Llywodraeth Cymru gydag ystod o randdeiliaid allanol a phartneriaid cyflawni posibl allweddol.

Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol er mwyn esbonio'r newidiadau arfaethedig a chasglu adborth ar y costau a'r manteision disgwyliedig. Ar yr un pryd, gwahoddwyd pob awdurdod lleol i ddarparu mewnbwn drwy gwblhau cyfres o gwestiynau am gostau a manteision ar ffurf arolwg. Cafwyd adborth gan 13 o awdurdodau lleol.

Cafwyd adborth ar gostau a manteision gan 23 o ysgolion a gwblhaodd arolwg hefyd. Gwnaed cyswllt cychwynnol â 295 o ysgolion, wedi'u haenu yn ôl darpariaeth gynradd a darpariaeth uwchradd, ardal ddaearyddol a chategori iaith. Roedd y 23 o ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o ysgolion ar draws y categorïau haenedig.

Roedd cwmpas gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn cynnwys sefydliadau a nodwyd yn y papur gwyn, yn ogystal â'r rhai y byddai'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Cynhaliwyd trafodaeth â'r Gweithgor Datblygu a Gweithredu Polisi (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau addysg ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolydd awdurdod lleol). Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg a phedwar darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Defnyddiodd yr Asesiad Effaith Integredig ddata a oedd ar gael ar y system addysg yng Nghymru hefyd, gan gynnwys y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a data TGAU.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 27 Mawrth 2023, a ddaeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Cafwyd 538 o ymatebion, yr oedd 366 ohonynt yn unigryw.

Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc drwy weithdai a gynhaliwyd ar ei rhan gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Chwefror 2024. Cymerodd dros 66 o gyfranogwyr rhwng 11 a 18 oed ran yn y gweithdai. Cynhaliwyd y gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a chlybiau ieuenctid yng Nghaerdydd, Gwynedd, Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Wrecsam, Bro Morgannwg a Chaerffili. Ystyriodd y gweithdai yr egwyddorion a'r nodau eang sy'n sail i'r Ddeddf.

Hefyd, cynhaliwyd arolwg ansoddol gan dîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn ystod ei gwrs preswyl ym mis Chwefror 2024. Cymerodd deg person ifanc ran yn yr arolwg, a gwnaeth un ohonynt hynny yn Gymraeg.

### 1.6 Effaith

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r prif ddadleuon dros y darpariaethau yn y Ddeddf, ochr yn ochr â'r ystod o safbwyntiau.

### 1.7 Costau ac Arbedion

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y costau amcangyfrifedig a'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Ddeddf.

### 1.8 Systemau

Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni amcanion y Ddeddf.

## 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pob plentyn, waeth ble mae'n byw yng Nghymru a waeth beth fo'i gefndir ieithyddol neu gefndir arall, yn cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, Cydraddoldeb a Phrawfesur Gwledig yn nodi'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc, a'r mesurau lliniaru cysylltiedig.

Gall y Ddeddf gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar gymunedau a chyfleoedd cymdeithasol mewn amser. Gall gwella eu sgiliau Cymraeg gynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. Efallai y bydd mwy o bobl yn gallu cael mynediad at leoliadau cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltu â nhw, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 2.2 Hawliau Plant

Nod y Ddeddf yw sicrhau newidiadau a fydd yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael y cyfle i adael y system addysg â sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cefnogi hawliau plant i gael addysg, eu hawl i ddysgu a defnyddio iaith eu teuluoedd a'u hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Bydd y Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr Cymraeg mewn ysgolion o bob categori iaith, drwy gynyddu a gwella addysg Gymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy bennu nodau dysgu Cymraeg newydd ar gyfer pob categori iaith, gan alluogi mwy o blant i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, ni waeth beth fo categori iaith yr ysgol y maent yn ei mynychu neu ym mha gymuned y maent yn byw. Bydd diwygiadau i hyd a lled CSCAau hefyd yn sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn elwa ar y cynnydd a’r gwelliant mewn addysg Gymraeg.

Gallai galluogi mwy o blant i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol arwain at ystod ehangach o gyfleoedd gydol oes i unigolion o ran cyflogaeth ac yn eu bywydau pob dydd. Mae hyn yn cyd-fynd â’r agenda trechu tlodi drwy rymuso plant a phobl ifanc a fydd yn meddu ar sgìl ychwanegol pan fyddant yn gadael y system addysg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cydnabod effeithiau negyddol posibl ar rai grwpiau o blant a phobl ifanc, ynghyd â'r mesurau lliniaru sydd eisoes ar waith neu wedi'u cynllunio.

Mae'r Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gael yn Atodiad A.

### 2.3 Cydraddoldeb

Dros amser, bydd y Ddeddf yn ehangu mynediad disgyblion yng Nghymru at y Gymraeg, fel eu bod yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Mae'r Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yn Atodiad B.

### 2.4 Prawfesur Gwledig

Mae'r

Atodiad E – Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig llawn ar gael yn Atodiad E.

### 2.5 Iechyd

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio addysg, gydag effeithiau ar addysg plant yn datblygu dros gyfnod estynedig. Ni ddisgwylir unrhyw effaith sylweddol ar iechyd o ganlyniad i'r darpariaethau.

Gall y Ddeddf gael effaith gadarnhaol fach ar gymunedau a chyfleoedd cymdeithasol mewn amser. Gall gwella eu sgiliau Cymraeg gynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. Efallai y bydd mwy o bobl yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltu â nhw, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt. Gall hyn gyfrannu at lesiant plant a phobl ifanc.

### 2.6 Preifatrwydd

**Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?**

Na fydd.

## 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg?

### 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth annirweddol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cynnwys y sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llên, theatr a chelf, ac mae chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chwaraeon cymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

#### 3.1.1. Sut y gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden?

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â'r system addysg yn bennaf ac, yn benodol, y gwaith o gynllunio a darparu addysg Gymraeg ym mhob ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, gall yr effeithiau eilaidd gyfrannu at y nod o hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant a threftadaeth. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall gwella eu sgiliau Cymraeg gynnig rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth cyfrwng Cymraeg.

**3.1.2. A allai'r cynnig gael effaith negyddol o ran hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y Ddeddf yn cael unrhyw effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, nac ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**3.1.3. Y Gymraeg**

Mae'r Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg ar gael yn Atodiad C.

## 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?

### 4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

Gall y Ddeddf gael effaith gadarnhaol fach i gymedrol ar fusnes a'r cyhoedd. Yn benodol, bydd y Cod yn pennu dull safonol a chlir ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, bydd y Cod yn galluogi pob dysgwr i ddiffinio ei sgiliau i gyflogwyr yn well, ni waeth ble mae'r cyflogwr na beth yw ei gyd-destun diwylliannol-ieithyddol. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol.

Bydd y cynnydd mewn sgiliau Cymraeg dros amser yn galluogi mwy o fusnesau i gynnig mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwasanaethau o ansawdd gwell.

Ni ddisgwylir i'r Ddeddf arwain at gostau i fusnesau. Mae'n bosibl y caiff rhai cyfleoedd eu creu o'r galw am fwy o adnoddau addysg Cymraeg ac adnoddau mwy amrywiol.

### 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Mae'n debygol y bydd y Ddeddf yn cael effaith fach i gymedrol ar y sector cyhoeddus. Yn benodol, gall y cynnydd yn sgiliau Cymraeg disgyblion sy'n ymuno â'r gweithlu dros amser gefnogi cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gwella gwasanaethau Cymraeg. Fel gyda busnesau, bydd y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn galluogi'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur i ddiffinio eu sgiliau yn well i gyflogwyr ac yn helpu cyflogwyr i ddeall gallu ymgeisydd yn y Gymraeg drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol. Disgwylir i'r Ddeddf arwain at gostau i rai sefydliadau sector cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol ac ysgolion. Ceir rhagor o fanylion am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### 4.3 Y Trydydd Sector

Gall y Ddeddf yn cael effaith fach i gymedrol ar y trydydd sector. Yn benodol, bydd y Cod yn pennu dull safonol a chlir ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, bydd y Cod hwn yn galluogi pob dysgwr i ddiffinio ei sgiliau i gyflogwyr, ni waeth ble mae'r cyflogwr na beth yw ei gyd-destun diwylliannol-ieithyddol. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall gallu ymgeisydd yn y Gymraeg drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol.

Gall y cynnydd mewn sgiliau Cymraeg dros amser alluogi mwy o sefydliadau i gynnig mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwasanaethau o ansawdd gwell. Bydd hyn o fudd i sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau Cymraeg eu hiaith yn arbennig.

### 4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Mae effeithiau posibl y Ddeddf ar y system gyfiawnder wedi'u hystyried. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd unrhyw effeithiau ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr o ystyried bod y Ddeddf yn weinyddol ei natur, a'i fod yn gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff addysg yng Nghymru ei chynllunio er mwyn cynyddu'r addysg Gymraeg.

<u>Nid</u> yw'r Ddeddf:

- yn creu nac yn diwygio trosedd
- yn creu nac yn diwygio cosb sifil neu gosb benodedig newydd
- yn creu gorchymyn na gwaharddeb sifil, y gallai ei dorri (ei thorri) arwain at achos pellach neu gosbau troseddol
- yn creu nac yn diwygio dedfrydau na chosbau
- yn creu nac yn diwygio rheolau trefniadaeth llysoedd na thribiwnlysoedd
- yn golygu newidiadau i geisiadau i'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys adolygiad barnwrol
- yn ymwneud ag awdurdodaeth tribiwnlys newydd
- yn creu mecanwaith apelio
- yn gofyn am sefydlu mecanweithiau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, cosbau sifil neu gosbau troseddol
- yn arwain at newid yn nifer y troseddwyr sy'n oedolion sy'n cael eu hanfon i'r carchar neu eu rhoi ar brawf
- yn arwain at newid yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol nac yn nifer y plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa
- yn arwain at newid yn hyd dedfrydau o garchar

## 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu gan annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

Mae'r asesiadau canlynol wedi cael eu hystyried a'u cwblhau lle y bo'n briodol:

- Blaenoriaethau cenedlaethol, heriau a chyfleoedd y Polisi Adnoddau Naturiol - gofynnol ar gyfer pob cynnig (5.1a a 5.1b)
- Bioamrywiaeth - gofynnol ar gyfer pob cynnig (5.2)
- Newid yn yr Hinsawdd - gofynnol ar gyfer pob cynnig (5.3)
- Asesiad Amgylcheddol Strategol - cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (5.4)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal (ACA/AGA) (5.5)
- Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol - prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr; draenio tir a thrydan lle bo angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan y Rheoliadau amrywiol (5.6)

## 5.1 Adnoddau Naturiol

### 5.1.1. Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau a gynhelir. Mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar gynigion i gyflawni Blaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol.

### 5.1.2. A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau a gynhelir. Yn gyffredinol, mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar heriau a chyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn

Effaith ddibwys.

- Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas

Effaith ddibwys.

- Parhau â'r capasiti cynhyrchiol, yn benodol drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch

Effaith ddibwys.

- Lleihau'r perygl o lifogydd

Effaith ddibwys.

- Cefnogi camau i liniaru ac addasu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau rheoli'r ecosystem

Effaith ddibwys.

- Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd yr aer

Effaith ddibwys i effaith fach. Gall cynyddu nifer ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” leihau'r angen i ddysgwyr deithio ymhellach na'u hardaloedd cyfagos er mwyn cael addysg yn yr iaith o'u dewis.

- Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau bod gennym ddigon ohono

Effaith ddibwys.

- Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy ddefnyddio adnoddau’n effeithlon ac ynni adnewyddadwy

Effaith ddibwys.

- Cefnogi dulliau ataliol o fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio’n benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol o ran llygredd sŵn ac aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl

Effaith ddibwys.

- Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd

Gall y Ddeddf gael effaith gadarnhaol fach ar gymunedau a chyfleoedd cymdeithasol mewn amser. Gall gwella eu sgiliau Cymraeg gynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn eu galluogi i ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd yn helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt. Gall y pwyntiau hyn gyfrannu at lesiant plant a phobl ifanc.

- Cefnogi cydlyniant cymunedol

Gall y Ddeddf arwain at effaith gadarnhaol gymharol ar gymunedau a'r defnydd o wasanaethau yn y cymunedau hynny mewn ardaloedd gwledig. Yn aml mae cymunedau Cymraeg wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig ac maent yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg. Gall fod yn anodd i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ymuno yn y cymunedau a'r lleoliadau hyn. Gellir tarfu ar gydbwysedd ieithyddol y cymunedau, y lleoliadau a'r gwasanaethau, os bydd yn rhaid i drigolion droi at y Saesneg yn rheolaidd. Gyda mwy o gyfleoedd i bobl ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, efallai y bydd mwy o bobl hefyd yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chymunedau Cymraeg ac ymgysylltu â nhw. Bydd cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd yn

helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt.

- Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog

Gall y Ddeddf gael effaith gadarnhaol fach. Gallai galluogi mwy o blant a phobl ifanc i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus roi sgìl ychwanegol iddynt, gan arwain at ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth.

### 5.2 Bioamrywiaeth

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau addysg a gynhelir. Mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar fioamrywiaeth.

### 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni leihau ein hallyriadau drwy fynd ati i ddatgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein cydnerthedd (5.3b).

#### 5.3.1. Datgarboneiddio

Effaith ddibwys i effaith fach. Gall cynyddu nifer ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” leihau'r angen i ddysgwyr deithio ymhellach na'u hardaloedd cyfagos er mwyn cael addysg yn yr iaith o'u dewis. Nid ystyrir bod angen cynnal asesiad mwy trylwyr o'r effaith ar allyriadau.

#### 5.3.2. Addasu

Yn bennaf oll, mae'r cynigion yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau addysg a gynhelir. Maent yn debygol o gael effaith ddibwys ar y gallu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau a gynhelir. Mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar yr amgylchedd. Nid ystyrir bod angen cwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau a gynhelir. Mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar gynefinoedd. Nid ystyrir bod angen cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

### 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Yn bennaf oll, mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau a gynhelir. Mae'n debygol o gael effaith ddibwys ar yr amgylchedd. Nid ystyrir bod angen cwblhau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

## 6. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae asesiad llawn o'r effaith economaidd-gymdeithasol ar gael yn Atodiad D isod.

## 7. Casgliad

### 7.1 Sut mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Ar gyfer pob Rhan o'r Ddeddf, mae'r prif bartneriaid yr effeithir arnynt wedi cael eu. Bu gwaith ymgysylltu â'r partneriaid hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ers hynny. Mae cynrychiolwyr o'r partneriaid sydd â diddordeb yn y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wedi cael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch cynllunio a gwireddu'r ddarpariaeth fel aelodau o Grŵp Gorchwyl. Mae gwaith ymgysylltu ag ysgolion wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r system categoreiddio iaith yng nghyd-destun y canllawiau anstatudol. Cynhaliwyd trafodaethau gydag Estyn am ei rôl arfaethedig. Mewn fforymau addysg, mae awdurdodau lleol – partneriaid allweddol y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg – i raddau helaeth wedi croesawu’r syniad y caiff cyfeiriad strategol ei osod gan Lywodraeth Cymru. Hysbysodd tystiolaeth gan bartneriaid allweddol adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu ‘fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg'. Mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu at ddarpariaethau yn ymwneud â CSCAau lleol drwy ddatblygu a gweithredu'r CSCAau presennol a rhoi adborth ar y system honno. Manteisiodd pedwar awdurdod lleol ar y cyfle i gyfrannu at ddatblygu canllawiau ar ddadansoddi data a chynllunio'r gweithlu addysg. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn ar ei rôl fonitro. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gydag ymarferwyr yn y sector addysg statudol ac ôl-statudol, awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, prifysgolion yn eu rôl fel darparwyr dysgu Cymraeg i oedolion ac fel canolfannau ymchwil a chaffael iaith, a sefydliadau Addysg Bellach ynghylch cefnogaeth i wireddu amcanion y Ddeddf.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 27 Mawrth 2023, a ddaeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Cafwyd 538 o ymatebion, yr oedd 366 ohonynt yn unigryw.

Comisiynwyd ymarfer ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig. Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai ar ran Llywodraeth Cymru gydag ystod o randdeiliaid allanol a phartneriaid cyflawni posibl allweddol.

Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol er mwyn esbonio'r newidiadau arfaethedig a chasglu adborth ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl. Ar yr un pryd, gwahoddwyd pob awdurdod lleol i ddarparu mewnbwn drwy gwblhau cyfres o gwestiynau am gostau a manteision ar ffurf arolwg. Cafwyd adborth gan 13 o awdurdodau lleol.

Cafwyd adborth ar gostau a manteision gan 23 o ysgolion hefyd drwy arolwg. Gwnaed cyswllt cychwynnol â 295 o ysgolion, wedi'u haenu yn ôl darpariaeth gynradd a darpariaeth uwchradd, ardal ddaearyddol a chategori iaith. Roedd y 23 o ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o ysgolion ar draws y categorïau haenedig.

Roedd cwmpas gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn cynnwys sefydliadau a nodwyd yn y papur gwyn, yn ogystal â'r rhai y byddai'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Cynhaliwyd trafodaeth grŵp â'r Gweithgor Datblygu a Gweithredu Polisi (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau addysg ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolydd awdurdod lleol), a chynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg a phedwar darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithdai hefyd a gynhaliwyd ar ei rhan gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Chwefror 2024. Cymerodd dros 66 o gyfranogwyr rhwng 11 a 18 oed ran mewn gweithdai ledled Cymru. Cynhaliwyd y gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a chlybiau ieuenctid mewn sawl awdurdod lleol ledled Cymru. Hefyd, cynhaliwyd arolwg ansoddol gan dîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn ystod ei gwrs preswyl ym mis Chwefror 2024. Cymerodd deg person ifanc ran yn yr arolwg, a gwnaeth un ohonynt hynny yn Gymraeg. Ystyriodd yr ymarferion ymgysylltu hyn yr egwyddorion a'r nodau eang sy'n sail i'r Ddeddf.

## 7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

### 7.2.1 Cynllunio i gynyddu a gwella addysg Gymraeg, darparu adnoddau i wneud hyn a chefnogi ysgolion

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno newidiadau sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru, darparu adnoddau ar ei chyfer a chefnogi'r gwaith o'i datblygu. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael effeithiau uniongyrchol ar brosesau cynllunio addysg a'r gweithlu. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion mewn sefyllfa well i gynllunio'n effeithiol ar gyfer mwy o addysg Gymraeg ac addysg Gymraeg well ym mhob ysgol a lleoliad a gynhelir yng Nghymru a, thrwy hynny, effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion wrth iddynt ddysgu Cymraeg. Drwy sicrhau eglurder o ran darpariaeth iaith a nodau dysgu ym mhob categori iaith, bydd ysgolion mewn sefyllfa well i gynllunio a datblygu eu darpariaeth a'u gweithlu dros amser drwy eu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Cefnogir hyn gan y ddealltwriaeth gyffredin a ddarperir gan y Cod, a fydd yn pennu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar gyfer pob oedran, gan gynnwys disgyblion a gweithlu ysgolion. Mae'r CSCAau lleol, ochr yn ochr â Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi gwaith cynllunio strategol ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen mewn ysgolion dros amser. Byddant hefyd yn galluogi gwaith cynllunio mwy effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â dysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn rhoi cydlyniaeth strategol i'r gwaith o ddatblygu addysg Gymraeg ledled Cymru, a bydd pob awdurdod lleol yn fwy ymwybodol o'r cyfraniad penodol a phriodol y gallant ei wneud at y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr a chyson i awdurdodau lleol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran cynyddu a gwella addysg Gymraeg, a chynyddu canran y disgyblion sy'n cael addysg Gymraeg mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”. Bydd hefyd yn cefnogi’r gwaith o gynllunio’r gweithlu addysg i sicrhau bod modd gwireddu uchelgeisiau’r Ddeddf. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn amlinellu camau i sicrhau bod hyfforddiant, cyfleoedd datblygu proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd y targedau perthnasol a nodir yn y Ddeddf.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Bydd yr Athrofa yn siop un stop ar gyfer cefnogi pob agwedd ar ddysgu Cymraeg. Bydd yn darparu arweiniad a chymorth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes yn genedlaethol. Bydd canoli arweiniad strategol ac arbenigedd mewn un corff yn sicrhau yr ymdrinnir â dysgu Cymraeg mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Bydd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i ddysgu Cymraeg a throsglwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'r system addysg, gan gynnwys y sector ysgolion. Bydd hyn yn helpu pob ysgol i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu a gwella addysg Gymraeg, a fydd o fudd i bob dysgwr yng Nghymru yn y pen draw.

### 7.2.2 Effaith ar blant a phobl ifanc

Bydd effaith ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i'r newidiadau i brosesau cynllunio, adnoddau a chymorth ysgolion, a fydd yn datblygu dros gyfnod estynedig. Bydd yr effaith yn gadarnhaol, ar y cyfan, gan y bydd dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Nododd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn nad yw rhai plant yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, am nad oes darpariaeth ar gael yng nghyffiniau eu cartref. Yn y gweithdai a gynhaliwyd gan Urdd Gobaith Cymru a'r arolwg ansoddol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru, nododd plant a phobl ifanc hefyd eu barn y dylai pob disgybl yng Nghymru gael y cyfle i ddysgu Cymraeg. Yn yr arolwg ansoddol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru, pwysleisiodd plant a phobl ifanc pa mor bwysig yw dewis, cyfle a thegwch mewn perthynas â chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg mewn ysgolion ym mhob ardal, gan arwain at fwy o ddisgyblion mewn addysg statudol ledled Cymru yn cael mwy o ddarpariaeth addysg Gymraeg, a darpariaeth well, gan gyfrannu at hybu’r Gymraeg ym mhob ardal.  Bydd y Ddeddf yn

creu cyfleoedd i gynllunwyr addysg feithrin dealltwriaeth well o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Ddeddf yn ehangu mynediad at y Gymraeg, ac yn ymdrin ag unrhyw rwystrau y gall rhai dysgwyr eu hwynebu.

Bydd rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynghylch addysg plant hefyd. Bydd y system categoreiddio iaith ysgolion yn rhoi eglurder i rieni/gwarcheidwaid a dysgwyr o ran darpariaeth iaith ysgolion yn eu hardal a'r nodau dysgu Cymraeg. Bydd gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau yn eu CSCAau lleol i hyrwyddo a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir yn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” yn gwella dealltwriaeth o’i manteision. At hynny, bydd hybu a chynnig addysg trochi hwyr yn Gymraeg yn ehangu mynediad at y Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n awyddus i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i deuluoedd a dysgwyr sy'n symud i'r system addysg yng Nghymru yn ddiweddarach yn eu bywyd ysgol.

Bydd rhoi eglurder a diffinio nodau dysgu Cymraeg disgyblion erbyn diwedd oedran ysgol gorfodol ym mhob categori iaith yn arwain at effaith gadarnhaol a chyfleoedd pellach i ddysgwyr, a hynny yn y byd gwaith ac yn eu bywydau pob dydd. Gall unigolion sy'n ymuno â'r gweithlu gyfleu a diffinio eu gallu ieithyddol, a gall cyflogwyr ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, a fydd yn gyson ag arferion gorau rhyngwladol. Gyda mwy o unigolion yn ymuno â'r gweithlu â sgiliau Cymraeg gwell, gall busnesau a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector fod mewn sefyllfa well i gynnig gwasanaethau Cymraeg, er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac adlewyrchu a gwasanaethu'r cymunedau ieithyddol amrywiol yng Nghymru yn well.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Ddeddf gyfrannu at yr agenda trechu tlodi drwy roi sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc na fyddent o bosibl wedi cael y cyfle i’w datblygu fel arall. O ganlyniad, mae’n bosibl y bydd yr unigolion hyn yn gallu ymgeisio am swyddi lle mae’r Gymraeg yn ddymunol neu’n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar fwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt. Canfu'r ymarferion ymgysylltu fod gan blant a phobl ifanc farn debyg, a gwelwyd cytundeb i raddau helaeth ymhlith y cyfranogwyr fod gallu yn y Gymraeg yn “sgìl pwysig ar gyfer swyddi yng Nghymru” (un o gyfranogwyr yr ymarferion ymgysylltu). Bydd y cyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch caffael y Gymraeg gydol oes hefyd yn cefnogi mwy o blant a phobl ifanc, beth bynnag fo’u hoedran, i barhau i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

## 7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn allweddol i strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, a'r nod Llesiant Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Datblygwyd strategaeth *Cymraeg 2050* yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae ei nodau yn cyd-fynd â'r nod llesiant Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Yn fwy penodol, mae targedau *Cymraeg 2050* yn cyd-fynd â dangosyddion llesiant 36 (Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg) a 37 (Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg), tra bo dangosydd 37 hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r garreg filltir llesiant o gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni'r targedau i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac a all siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau o Gymraeg i 20% erbyn 2050. Un o nodau'r strategaeth yw 'creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus'. Mae'r Ddeddf yn ceisio cyfrannu at wireddu'r targedau hyn drwy ehangu mynediad at y Gymraeg i'r holl ddisgyblion yng Nghymru, ni waeth beth fo categori ieithyddol yr ysgol y maent yn ei mynychu, neu ym mha gymuned y maent yn byw a thrwy sicrhau bod addysg Gymraeg ym mhob ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Yn y tymor hir, disgwylir i hyn gyfrannu at wella sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys y gweithlu addysg, gyda mwy o ddisgyblion yn mynd i'r gweithle gyda gwell sgiliau Cymraeg.

Yn benodol:

- Bydd rhoi sail statudol i'r targed miliwn o siaradwyr a chyfraniad y system addysg statudol at wireddu'r targed hwnnw yn sail gref ar gyfer ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru.
- Bydd cyflwyno Cod er mwyn pennu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn galluogi dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr i feddu ar ddealltwriaeth a rennir o daith unigolyn wrth iddo ddysgu Cymraeg.
- Bydd creu system statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt yn rhoi fframwaith i ysgolion wneud cynnydd, boed hynny'n golygu cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn categori, neu symud i gategori iaith uwch. Bydd categoreiddio ysgolion hefyd

yn cynnig eglurder a chysondeb i ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid mewn perthynas â nodau dysgu Cymraeg.

- Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn rhoi cyfeiriad strategol i awdurdodau lleol o ran y disgwyliadau sydd arnynt i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg, ac arweiniad i'r sawl sy'n rhoi cefnogaeth i'r system addysg o ran caffael a dysgu'r Gymraeg.
- Bydd CSCA lleol pob awdurdod lleol yn nodi sut y bydd yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg yn ei ardal, gan ymateb i dargedau a osodwyd ar gyfer yr awdurdod lleol yn y Fframwaith Cenedlaethol ac ystyried ffactorau sy'n berthnasol i'r ardal leol. Bydd hyn yn gosod y seiliau ar gyfer hwyluso'r daith ieithyddol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Bydd hyrwyddo'r addysg Gymraeg a ddarperir yn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg", a hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg, yn gosod sail gref i awdurdod lleol ehangu'r mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru, gan gynnwys disgyblion sy'n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd dysgu sylfaen.
- Y nod wrth ganoli darpariaeth ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes drwy'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso eu cynnydd, fel y gall mwy o bobl (o bob oed) ddysgu'r iaith.

  Drwy ehangu mynediad at y Gymraeg, gallai'r Ddeddf dros amser effeithio ar ganfyddiadau o ddiwylliant a hunaniaeth a chefnogi hawl plant i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd ymhellach (mewn perthynas â'r Gymraeg). Bydd y Ddeddf hefyd yn cynnig cyfleoedd i feithrin dealltwriaeth well o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n cael eu nodi.

  Gall cynyddu gallu dysgwyr yng Nghymru yn y Gymraeg a chyfrannu, yn y pen draw, at filiwn o siaradwyr Cymraeg hefyd gefnogi gwydnwch cymunedau Cymraeg eu hiaith. Disgwylir i'r Ddeddf gefnogi teuluoedd a phlant o bob rhan o Gymru i ymgysylltu'n llawn â chymunedau, lleoliadau a gweithgareddau Cymraeg.

### 7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Nodir cynlluniau ar gyfer adolygu ar ôl gweithredu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r polisi yn effeithiol, bydd angen cwblhau asesiad o werthusadwyedd yn ystod y camau cynnar. Bydd hyn yn helpu i nodi natur a chwmpas y rhaglen werthuso ac argaeledd data perthnasol er mwyn monitro cynnydd. Bydd y broses hon hefyd yn cynnig cyfle i ailystyried y Ddamcaniaeth Newid wreiddiol a luniwyd ar gyfer y Ddeddf, rhoi cyfrif am unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi yn ystod y broses ddrafftio ddeddfwriaethol a sicrhau y caiff

canlyniadau ac effeithiau bwriadedig ymyriadau polisi gwahanol eu cyfleu a'u nodi'n glir. Ar y sail hon y caiff proses werthuso ar gyfer y Ddeddf ei llunio.

Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf o weithredu a bydd yn canolbwyntio ar b'un a yw newidiadau polisi yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd ac a ydynt yn arwain at welliannau i'r seilwaith sy'n ategu'r gwaith o gynllunio polisi iaith Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i elfennau penodol o'r Ddeddf megis y Fframwaith Cenedlaethol a'r broses newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt.

Cynhelir gwerthusiad crynodol tua diwedd y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd (a fydd yn cynnwys y gwaith a wnaed i ddatblygu'r ddau Fframwaith Cenedlaethol cyntaf a CSCAau lleol) er mwyn nodi a yw'r Ddeddf wedi cael yr effaith a ddymunir ar nifer y disgyblion sy'n gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus ac annibynnol.

Bydd y gwerthusiad crynodol hefyd yn cynnig cyfle i nodi a yw'r Ddeddf wedi sicrhau'r newid ymddygiad a ddymunir o ran cynllunio ar gyfer y Gymraeg. Gallai fod yn fuddiol defnyddio modelau newid ymddygiad megis COM-B yn ystod y broses hon er mwyn deall a ellir priodoli Gallu, Cyfle a/neu Gymhelliant rhanddeiliaid allweddol i fabwysiadu'r ymddygiad a ddymunir i'r Ddeddf.

Er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol, bydd angen deall pam fod grwpiau penodol o ddysgwyr (fel y'u nodwyd yn yr asesiadau effaith) nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. At hynny, bydd angen nodi maint y canlyniadau bwriadedig cadarnhaol y Ddeddf o ran sicrhau mynediad at addysg Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru. Caiff hyn ei ystyried mewn gwerthusiadau crynodol a ffurfiannol.

Yn olaf, cwblheir gwerthusiad economaidd er mwyn nodi unrhyw wahaniaethau rhwng costau gwirioneddol y Ddeddf a'r costau a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Atodiad A - Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Cyflwyniad

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ystyried effaith Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar blant yng Nghymru a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Cytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol yw CCUHP sy'n gymwys i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Cafodd ei gymeradwyo gan y DU ym mis Rhagfyr 1991 a daeth i rym yn y DU ym mis Ionawr 1992.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail wrth lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ers 2004. Caiff hawliau plant yng Nghymru eu hamddiffyn ymhellach gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i rwymedigaethau a hawliau parhaol CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddull allweddol o roi CCUHP ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal fel ffordd o sicrhau y caiff hawliau plant eu hystyried yn briodol wrth gyflwyno deddfwriaeth neu arfer swyddogaethau gweinidogol.

Wrth baratoi'r Ddeddf, ystyriwyd a ellir effeithio ar blant a grwpiau penodol o blant. Mae hyn wedi llywio'r dadansoddiad o'r ffordd y mae'r Ddeddf yn effeithio ar erthyglau'r Confensiwn.

### Amcanion polisi

Cyflwynir Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yng nghyd-destun yr her sylweddol a osodir gan strategaeth *Cymraeg 2050*, a'r targed o filiwn o siaradwyr. Mae hyn yn galw am newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd rydym yn meddwl am y Gymraeg yn gyffredinol ac, yn benodol, rôl addysg yn hyn o beth. Mae'r Ddeddf yn nodi camau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol drwy'r system addysg statudol. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth i gefnogi'r Gymraeg yn fwy eang na'r sector addysg.

### RHAN 1: Hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg

### Adlewyrchu’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith

- Darparu sail statudol i’r targed o filiwn o siaradwyr drwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw strategaeth y Gymraeg a gaiff ei llunio gan Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, o leiaf, erbyn 2050; targedau eraill yn ymwneud â defnyddio’r iaith; a chamau i annog trosglwyddo’r Gymraeg.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, o fewn 12 mis i gyhoeddi’r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, i adolygu’r safonau a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr adolygiad hwn gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn adlewyrchu’r Cod a hwyluso cyflawni targedau a osodir yn strategaeth y Gymraeg.

**RHAN 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg**

**Cod i sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg**

- Sefydlu'r cysyniad bod tri math o ddefnyddiwr Cymraeg.
- Disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddwyr Cymraeg ar sail chwe lefel cyfeirio gyffredin 'Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd' (CEFR).
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod a fydd yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio nodweddion penodol defnyddwyr Cymraeg ar sail y lefelau cyfeirio cyffredin. Bydd hyn yn hwyluso cyd-ddealltwriaeth dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o daith unigolyn i ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith honno.

**RHAN 3: Addysg Gymraeg**

**Categoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion; cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion; a darpariaeth trochi hwyr**

- Sefydlu trefn statudol i gategoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:
  - creu tri chategori statudol, sef: (i) "Prif Iaith – Cymraeg" (ii) "Dwy Iaith" a (iii) "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".
  - gosod isafswm o'r ddarpariaeth addysg Gymraeg sydd i'w darparu ym mhob categori, ynghyd'r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer disgyblion.
  - gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benderfynu a ddylid cynyddu'r isafswm ar gyfer y categori "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" bob pum mlynedd, gan roi sylw penodol i'r effaith y câi hynny ar gyrraedd targedau strategaeth y Gymraeg.
  - caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg dros amser wrth i ffactorau megis argaeledd gweithlu newid.
  - ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu darpariaeth addysg Gymraeg yn unol ag amrediad eu categori iaith.
  - caniatáu i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" wneud cais am esemptiad dros dro i'r ddyletswydd i ddarparu yn unol â'u categori lle bo angen rhagor o amser i gyrraedd yr isafswm statudol.
  - ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal rhestr o gategori iaith pob ysgol yn ei ardal, ac unrhyw ysgolion newydd a gynigir.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg a fydd, ymhlith pethau eraill, yn dangos sut y bydd ysgolion yn gwella neu gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, yn cynllunio i symud i gategori iaith uwch ymhen amser.
- Rhoi rôl i awdurdodau lleol gymeradwyo cynlluniau cyflawni ysgolion ynghyd â chategori iaith ysgol.

- Gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr yn y Gymraeg, ac i annog galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi.

**RHAN 4: Cynllunio Addysg a Dysgu'r Gymraeg**

**Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg sy'n cwmpasu'r addysg a ddarperir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol ac ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes. Bydd y Fframwaith yn creu cyswllt rhwng y targedau cenedlaethol a'r targedau ar lefel awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg. Bydd gofyn diweddaru'r Fframwaith bob pum mlynedd, ac adrodd ar gyflawniad yn erbyn targedau'r Fframwaith yn flynyddol.

**Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg**

- Newid y system o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, gan symud y ffocws tuag at gynlluniau sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r targedau a osodwyd arnynt gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol o ran cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn eu hysgolion.
- Ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau o'r fath fanylu'r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i:
  - hybu a hwyluso addysg Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion ei ardal
  - gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal;
  - gwella'r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal;
  - hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" a'r categori "Dwy Iaith";
  - cyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo addysg drochi hwyr a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr yn ei ardal;
  - hwyluso dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, a rhwng addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol.
- Bydd angen i'r Cynlluniau hefyd gynnwys gwybodaeth am y gweithlu addysg.
- Diddymu Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**RHAN 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

- Sefydlu corff statudol newydd, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("yr Athrofa") a gwneud darpariaeth ar gyfer ei aelodaeth a'i lywodraethiant yn ogystal â'i swyddogaethau.
- Amcan yr Athrofa yw hwyluso a chefnogi pobl i ddysgu'r Gymraeg, fel bod rhagor o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio hi bob dydd.

- Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr Athrofa i gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys:
  - rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;
  - darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol a gwella eu lefelau gallu yn y Gymraeg;
  - darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg;
  - datblygu cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol;
  - dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith o'r fath. Rhaid i'r ddarpariaeth gynnwys amrywiaeth o lefelau dysgu sydd wedi'i seilio ar y lefelau cyfeirio cyffredin;
  - cynllunio datblygiad y gweithlu addysg a darparu hyfforddiant ar eu cyfer er mwyn gwella dulliau addysgu'r Gymraeg; a
  - chasglu a chyhoeddi data mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg.
- Galluogi'r Athrofa i gyllido darparwyr dysgu Cymraeg, rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu a dysgu Cymraeg a chydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu a dysgu Cymraeg.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa:
  - hybu arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg
  - hybu cyfle cyfartal a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu Cymraeg o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
  - hybu cydlafurio a chydlynu mewn perthynas â dysgu Cymraeg a rhannu arfer orau;
  - llunio cynllun strategol a gosod y trefniadau y mae'n rhaid i'r Athrofa eu dilyn wrth baratoi, cyflwyno, cyhoeddi ac adolygu'r cynllun strategol; a
  - llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

**Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

Wrth gasglu tystiolaeth i ategu'r Asesiad Effaith, mae swyddogion wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o gydweithwyr ym meysydd polisi, y gyfraith ac ymchwil yn Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion polisi hefyd wedi ymgymryd â'r / ystyried y canlynol mewn perthynas ag effaith bosibl y Ddeddf:

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 27 Mawrth 2023, a ddaeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Cafwyd 538 o ymatebion, yr oedd 366 ohonynt yn unigryw. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 36 o gwestiynau yn ymwneud ag agweddau amrywiol ar y cynigion. Roedd yr ymatebion yn amrywio ac, fel y cynigion eu hunain, roeddent yn ymwneud yn bennaf â'r newidiadau arfaethedig i gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion a sicrhau'r adnoddau ar ei chyfer. Roedd rhai

ymatebion yn ymwneud yn benodol â'r effeithiau ar blant a phobl ifanc. Cyfeirir at y rhain yn y dadansoddiad isod. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael.

- Casglodd Cymdeithas yr Iaith sylwadau ar gardiau post yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin rhwng 29 Mai a 3 Mehefin 2023. Cyflwynwyd y cardiau post i swyddogion Llywodraeth Cymru eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. Deellir mai sylwadau gan blant a phobl ifanc ydynt yn bennaf, er ei bod yn ymddangos bod nifer fach o ymatebion wedi'u cwblhau gan rieni/gwarcheidwaid.

  Cafwyd cyfanswm o 239 o gardiau post. Cafwyd sylwadau gan 192 o unigolion yn rhoi rhesymau pam maent am i bob plentyn yng Nghymru gael addysg Gymraeg. Gwnaeth 47 o unigolion lofnodi'r cerdyn post heb roi sylw pellach. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion a gafwyd yn Gymraeg; cafwyd 9 ymateb yn Saesneg. Roedd pob ymateb o blaid y Gymraeg yn ddieithriad. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a oedd yn anghytuno â thestun y templed. Ceir crynodeb o'r prif themâu yn Atodiad 3 o'r crynodeb o ymatebion.

- Defnyddiodd yr Asesiad Effaith Integredig ddata a oedd ar gael ar y system addysg yng Nghymru, gan gynnwys y CYBLD a data TGAU.

- Defnyddiwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg hefyd i feithrin gwell dealltwriaeth o agweddau at y Gymraeg.

- Ffynonellau eilaidd. Mae'r rhai y cyfeirir yn benodol atynt yn y ddogfen hon yn cynnwys:
  - BBC News. (2020). Black and Welsh: The assumptions and questions people face. BBC News.
  - Black and Welsh. (2020b). BBC One Wales. 26 Hydref
  - Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru. (2023). Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol. briff mater. Ar-lein.
  - Llywodraeth Cymru. (2021a). Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2021b). Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2022). Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2023b). Canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2023a). Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Denodd yr ymgynghoriad ar y papur gwyn, a'r ymarfer ymgysylltu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, yr oedd rhai ohonynt,

megis Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Cymru, mewn sefyllfa i gynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi siom am y diffyg ymgysylltiad penodol â phlant ynglŷn â'r cynigion yn y papur gwyn. O ganlyniad, aeth y Llywodraeth ati i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithdai a gynhaliwyd ledled Cymru, a gynhaliwyd ar ei rhan gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Chwefror 2024. Cymerodd dros 66 o gyfranogwyr rhwng 11 a 18 oed ran yn y gweithdai. Cynhaliwyd y gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a chlybiau ieuenctid yng Nghaerdydd, Gwynedd, Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Wrecsam, Bro Morgannwg a Chaerffili. Ystyriodd y gweithdai yr egwyddorion a'r nodau eang sy'n sail i'r Ddeddf.

Roedd yr ymatebion yn gefnogol tu hwnt i nodau'r Ddeddf ac, yn benodol, y syniad y dylai pob disgybl, ni waeth pa ysgol y mae'n ei mynychu, gael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg yn annibynnol erbyn 16 oed: “Dylai fod dysgu iaith eich gwlad yn hawl” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Bro Morgannwg). Gwnaeth nifer fach o ymatebwyr gynnwys cafeat yn eu sylwadau cefnogol drwy awgrymu na ddylai dysgu Cymraeg fod yn orfodol: “Ydy, dyle nhw gallu cael siawns i ddysgu Cymraeg os nhw eisiau” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Caerdydd).

Trafododd y cyfranogwyr fanteision dysgu Cymraeg, a phwysleisiodd llawer fanteision cymdeithasol a phroffesiynol: “Gall ehangu eich cyfleoedd gwaith a'ch helpu i gael swyddi gwell yn y dyfodol” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Merthyr Tudful). Roedd cyfranogwyr hefyd o'r farn bod amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, diwylliannol a phroffesiynol yn gysylltiedig â rhoi cyfle i bob dysgwr ddysgu Cymraeg.

Hefyd, cynhaliwyd arolwg ansoddol gan dîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn ystod ei gwrs preswyl ym mis Chwefror 2024. Cymerodd deg person ifanc ran yn yr arolwg, a gwnaeth un ohonynt hynny yn Gymraeg. Roedd y cyfranogwyr yn credu i raddau helaeth y dylai disgyblion yng Nghymru gael y cyfle i ddysgu Cymraeg erbyn iddynt droi'n 16 oed. Gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd dewis, cyfle a thegwch mewn perthynas â chyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Hefyd, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod gwerth mewn bod yn siaradwr annibynnol a hyderus, yn enwedig mewn perthynas â gyrfaoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon na ddylai addysgu Cymraeg gael blaenoriaeth dros addysgu pynciau allweddol megis Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ac na ddylai leihau ansawdd yr addysgu yn y pynciau hynny.

Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu yn archwilio barn plant a phobl ifanc ac yn ystyried asesiadau plant a phobl ifanc fel ffordd o fesur llwyddiant y Ddeddf.

**Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Yn 2017-18, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau am y Gymraeg, gan ystyried hyder siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith yn ogystal ag agweddau at yr iaith ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg a'r rhai a ddywedodd nad ydynt yn siarad yr iaith. O'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed, roedd 82% yn cytuno bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono; dywedodd 73% yr hoffent ddysgu Cymraeg; roedd 70% yn cytuno bod angen cefnogi'r Gymraeg yn fwy.

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019/20 yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am agweddau siaradwyr Cymraeg ifanc at y Gymraeg. Canfu'r fersiwn o'r arolwg i bobl ifanc fod hanner y bobl ifanc 11-15 oed oedd yn siarad Cymraeg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Gymraeg yn elfen bwysig o'u hunaniaeth (54%). At hynny, dywedodd 80% o bobl ifanc 11-15 oed oedd yn siarad Cymraeg eu bod yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol a'r Arolwg Defnydd Iaith yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yng Nghymru yn gefnogol o'r Gymraeg ac y byddent yn croesawu'r cyfle i ddysgu Cymraeg, sy'n rhoi cefnogaeth bellach i nodau'r Ddeddf i ehangu mynediad plant a phobl ifanc at y Gymraeg, gan sicrhau bod pob plentyn, ni waeth ble mae'n byw yng Nghymru a ni waeth beth fo'i gefndir ieithyddol neu gefndir arall, yn cael cyfle i ddod yn siaradwr hyderus ac annibynnol.

Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn golygu gwella a chryfhau'r seilwaith cynllunio ac adnoddau sy'n sail i addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru, a fydd, yn ei dro, yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Ddeddf gyfrannu at yr agenda trechu tlodi drwy roi sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc na fyddent o bosibl wedi cael y cyfle i'w datblygu fel arall. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd yr unigolion hyn yn gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar fwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt. Canfu'r ymarferion ymgysylltu fod gan blant a phobl ifanc farn debyg, a gwelwyd cytundeb i raddau helaeth ymhlith cyfranogwyr fod gallu yn y Gymraeg yn "sgìl pwysig ar gyfer swyddi yng Nghymru" (un o gyfranogwyr yr ymarferion ymgysylltu). Bydd y cyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch caffael y Gymraeg gydol oes hefyd yn arwain at fwy o blant a phobl ifanc, beth bynnag fo'u hoedran, yn gallu parhau i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Yn ogystal â manteision posibl dwyieithrwydd a sgiliau Cymraeg o ran cyflogaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall gwella eu sgiliau Cymraeg gynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. Boed hynny mewn cyd-destun proffesiynol neu mewn cyd-destunau eraill, bydd mwy o bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn dewis o ieithoedd. Bydd mwy o blant a phobl ifanc hefyd yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltu â nhw. Gall cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y posibilrwydd y gall y Ddeddf effeithio ar blant a phobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol, ac yn cytuno bod angen rhywfaint o fesurau lliniaru er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar rai grwpiau o blant a phobl ifanc. Caiff effeithiau negyddol posibl eu trafod yn fanwl isod, ochr yn ochr â'r mesurau lliniaru sydd ar waith er mwyn eu lleihau.

Ymdrinnir â phob Rhan o'r Ddeddf yn ei thro isod, gan nodi'r ffyrdd y gall y darpariaethau effeithir ar blant. Trafodir yr effaith bosibl ar blant a phobl ifanc sydd â

nodwedd warchodedig/nodweddion gwarchodedig yn fanwl yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, caiff rhai pwyntiau eu cynnwys isod hefyd.

**RHAN 1: Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg**

**Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith**

Drwy ei gwneud hi'n ddyletswydd i Strategaeth y Gymraeg gynnwys targed o filiwn o leiaf o siaradwyr erbyn 2050 a gwneud darpariaeth ar gyfer deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru, ni waeth beth fo'r ddaearyddiaeth neu'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol lleol, yn rhan o'r genhadaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o leiaf erbyn 2050 ac yn cael ei gefnogi i gyfrannu at y genhadaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn a pherson ifanc sy'n mynychu ysgolion a gynhelir. Nododd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn nad yw rhai plant yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, am nad oes darpariaeth ar gael yng nghyffiniau eu cartref. Yn y gweithdai a gynhaliwyd gan Urdd Gobaith Cymru a'r arolwg ansoddol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru, nododd plant a phobl ifanc eu barn y dylai pob disgybl yng Nghymru gael y cyfle i ddysgu Cymraeg. Yn yr arolwg ansoddol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru, pwysleisiodd plant a phobl ifanc pa mor bwysig yw dewis, cyfle a thegwch mewn perthynas â chyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Bydd y Ddeddf hwn yn ehangu mynediad at addysg Gymraeg. Gallai rhoi eglurder a diffinio nod dysgu Cymraeg (ar gyfer pob categori iaith) hefyd arwain at ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgwyr o ran cyflogaeth ac yn eu bywydau bob dydd. Gall unigolion sy'n ymuno â'r gweithlu gyfleu a diffinio eu gallu ieithyddol.

**RHAN 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg**

**Cod er mwyn pennu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar chwe lefel gyfeirio gyffredin 'Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd' (CEFR) yn cyfrannu at ddealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg. Pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, bydd y Cod hwn yn galluogi pob dysgwr i ddiffinio ei sgiliau i gyflogwyr, ni waeth ble mae'r cyflogwr na beth yw ei gyd-destun diwylliannol-ieithyddol. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall lefel gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol. O ganlyniad, gallai hyn leihau'r risg y bydd cyflogwyr yn defnyddio barn oddrychol, a allai fod yn rhagfarnllyd neu'n ystrydebol, am alluoedd ieithyddol ymgeisydd. Er enghraifft, tybir weithiau na all Cymry Du siarad Cymraeg (gweler BBC, 2020; 2020b).

Gall Cod i bennu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg gefnogi plant a phobl ifanc i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg ac elwa ar fanteision dwyieithrwydd pan fyddant yn oedolion.

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn hefyd o'r farn y byddai cael un fframwaith, fel yr un hwn, yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol a mwy o eglurder i rieni a

disgyblion ynghylch y deilliannau ieithyddol tebygol ar gyfer dysgwyr ym mhob categori iaith ysgol.

**RHAN 3: Addysg Gymraeg**

**Categoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion; cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg; a darpariaeth trochi hwyr**

Bydd system safonol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt, ynghyd â chynyddu a gwella darpariaeth addysg Gymraeg, yn arwain at ehangu mynediad plant a phobl ifanc at addysg Gymraeg ble bynnag y maent yn byw. Bydd y broses hon hefyd yn rhoi eglurder i rieni/gwarcheidwaid ynglŷn â'r ddarpariaeth iaith yn eu hysgol a'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig yn Gymraeg i ddysgwyr.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y byddai system statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ynddynt yn golygu y gellid diffinio'r ddarpariaeth yn gywir a'i monitro'n rheolaidd, a byddai'n creu sylfaen ar gyfer cynnydd yn unol â thargedau *Cymraeg 2050.* Hefyd, cydnabu sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y byddai'r broses gategoreiddio o fudd i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn y pen draw.

> "Bydd creu system gategoreiddio ar gyfer ysgolion a gynhelir yn ôl categori iaith yn egluro cynnig cwricwlaidd ysgolion, gan ei gwneud yn haws i rieni a gofalwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth."

Drwy sicrhau eglurder o ran darpariaeth iaith ym mhob categori, bydd ysgolion mewn sefyllfa well i gynllunio a datblygu eu darpariaeth a'u gweithlu dros amser. Yn wir, roedd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn o'r farn y byddai diffinio disgrifiadau'r categorïau yn sicrhau gwell cysondeb mewn ysgolion ac yn atgyfnerthu'r angen i ysgolion gynllunio ar gyfer anghenion dysgu proffesiynol eu gweithlu. Felly, er mai proses sy'n ymwneud â chynllunio addysg ydyw yn bennaf, bydd categoreiddio yn cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen i gynyddu a gwella addysg Gymraeg mewn ysgolion dros amser, a thrwy hynny wella profiad y plant.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r swm o addysg Gymraeg sydd i'w darparu ym mhob categori iaith, gan gynnwys yr isafswm. Yr isafswm ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yw 10%. Gall cynyddu'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir o'r sylfaen isaf i'r ddarpariaeth ofynnol o 10% yn yr ysgolion hyn gael effaith ar rai dysgwyr. Yn gyffredinol, ystyriwn y bydd yr effaith yn gadarnhaol gan y bydd yn helpu, ochr yn ochr â'r darpariaethau ynghylch y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith a chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion, i sicrhau y bydd dysgwyr ym mhob ysgol yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Gallai'r effeithiau negyddol posibl gynnwys y gallai cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg leihau faint o amser sydd ar gael ar amserlen yr ysgol ar gyfer elfennau eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol o 10% yn gyfystyr ag oddeutu 2.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", mae'n debygol y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gyflawni gan wersi Cymraeg (pwnc) yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, a sut i wneud hynny'n

briodol. Bydd y canllawiau hefyd yn trafod sut a phryd i ehangu darpariaeth yn briodol mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau/meysydd. O ganlyniad, ystyrir mai risg isel yw hon, sydd ag effaith isel y gellir ei lliniaru.

Bydd yn ofynnol i ysgol arbennig gymunedol baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, ond ni ddynodir categori iaith iddi, oni bai bod corff llywodraethu’r ysgol yn dymuno hynny. Bydd hyn yn caniatáu i bob un o’r ysgolion hyn gynllunio eu haddysg Gymraeg yn y ffordd sy’n cyflawni orau eu hamgylchiadau a’u disgyblion benodol nhw.

**RHAN 4: Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

**Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i sicrhau bod darpariaeth dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg gydol oes yn cael eu datblygu a'u gwella. Yn ogystal â nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i gynyddu a gwella'r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i roi cyfleoedd i bobl yng Nghymru o bob oed ddysgu Cymraeg, gan gynnwys drwy wasanaethau gofal plant i'r rhai sydd dan oedran ysgol gorfodol, drwy addysg feithrin, drwy addysg drydyddol, yn y gweithle ac yn y gymuned. Disgwylir i’r camau hyn gael effaith gadarnhaol ar blant ar bob cam o'u taith gofal plant ac addysg.

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn amlinellu camau i sicrhau bod hyfforddiant, cyfleoedd datblygu proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd y targedau perthnasol a nodir yn y Ddeddf.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall pob ardal yng Nghymru ddatblygu a gwella ei chapasiti i ddarparu addysg Gymraeg. Yn ei dro, bydd hyn yn gwella mynediad at gyfleoedd i bob dysgwr ddysgu Cymraeg, ac yn darparu mwy o'r cyfleoedd hyn.

**Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg**

Prif effaith y darpariaethau hyn fydd gwella prosesau cynllunio addysg, gan gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i bob disgybl dros amser. Bydd CSCAau lleol yn helpu i ehangu mynediad disgyblion ledled Cymru at addysg cyfrwng Cymraeg, ble bynnag y maent yn byw, a chynyddu nifer y disgyblion sy’n datblygu sgiliau Cymraeg. Yr effaith ar blant felly fydd cael mwy o fynediad at well addysg Gymraeg mewn ysgolion dros amser. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â’r dyletswyddau a nodir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ceir rhagor o fanylion am ADY isod).

Bydd angen i awdurdod lleol amlinellu sut y bydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso’r gwaith o addysgu Cymraeg, ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, i blant nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir (fel y’u diffinnir yn y Ddeddf). Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, blant sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

Bydd darpariaethau’r Ddeddf yn galluogi gwaith cynllunio mwy effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cynllunwyr

addysg yn cael cyfleoedd i feithrin, dros amser, ddealltwriaeth well o ofynion cymorth a dysgu pob dysgwr sy'n byw yn eu hardal.

Bydd gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau yn eu CSCAau lleol i hybu addysg yn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” yn gwella dealltwriaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ac, fel y cyfryw, mae angen cymryd camau ychwanegol i esbonio addysg cyfrwng Cymraeg i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, neu nad ydynt yn gyfarwydd â chyd-destun diwylliannol-ieithyddol neu addysgol Cymru. Er y bydd yn fuddiol i amrywiaeth o bobl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y ddarpariaeth hon yn cael effaith benodol ar bobl sydd â llai o ddealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol yng Nghymru, neu nad ydynt o bosibl yn ymwybodol y gall plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y gallai rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg helpu i roi mwy o eglurder a gwybodaeth i rieni mewn perthynas â chategorïau iaith ysgolion yn eu hardal, a deilliannau ieithyddol disgwyliedig dysgwyr. Drwy roi mandad ffurfiol ar waith, gallai rhieni gael gwybodaeth fwy cynhwysfawr am yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, gallai hyn rymuso rhieni i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch addysg eu plant. Nododd ymchwil ansoddol mewn perthynas â gofal plant ac addysg gynnar y gall rhieni a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu defnyddio addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gael eu hannog i wneud hynny pe baent yn fwy ymwybodol o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2021a: 52).

At hynny, bydd darparu a hyrwyddo addysg trochi hwyr yn Gymraeg yn ehangu mynediad at y Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy’n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn sicrhau y bydd y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt os byddant yn dewis gwneud hynny.

## RHAN 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

### Sefydlu corff statudol newydd: yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd sefydlu corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn ogystal â chefnogi oedolion i ddysgu Cymraeg, bydd yr Athrofa hefyd yn allweddol wrth gefnogi ysgolion, dysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid unwaith y caiff ei sefydlu. Yn benodol, gallai adeiladu ar brofiad a hanes y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ddatblygu cyrsiau a dysgu Cymraeg i oedolion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion a chynllunwyr addysg ymhellach ac yn eu galluogi i ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol, gan gynnwys plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, gan helpu i ehangu mynediad at y Gymraeg.

Drwy hyfforddiant iaith arbenigol i weithwyr addysg proffesiynol; cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg; a gweithredu fel siop un stop ar gyfer cefnogi pob agwedd ar ddysgu Cymraeg, bydd yr Athrofa yn helpu pob ysgol i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ac ansawdd y ddarpariaeth honno, a fydd o fudd i bob dysgwr yng Nghymru yn y pen draw.

**Effeithiau posibl mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfeiriwyd at y mater hwn gan nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn. Yn eu papur polisi 'Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol', nododd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru na all sawl awdurdod lleol bennu a yw anghenion yn cael eu diwallu, a nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol na allant gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer llawer o anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i rai dysgwyr gael cymorth yn Saesneg, neu ddewis addysg cyfrwng Saesneg o'r dechrau, gan wybod nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn ddigonol. Mae'r adroddiad yn nodi bod dwy her allweddol i ddarparu cymorth ADY digonol drwy gyfrwng y Gymraeg: diffyg gweithlu arbenigol sydd â'r sgiliau iaith ac anhawster wrth gynnig darpariaeth arbenigol pan fydd y niferoedd sy'n debygol o fanteisio ar y ddarpariaeth yn gymharol isel (gweler papur Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru. 2023).

Yn adroddiad cwmpasu Llywodraeth Cymru i lywio'r dull o werthuso'r system ADY, nodwyd yr heriau canlynol:

> "I grynhoi, ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, mae heriau amlwg i wireddu'r nod craidd o greu system ADY ddwyieithog. Mae'r heriau hyn yn cynnwys gwendidau mewn cynllunio strategol i gefnogi a datblygu DDdY cyfrwng Cymraeg, adnoddau Cymraeg cyfyngedig, a phrinder staff cymwys sy'n gallu cefnogi dysgwyr ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i'r gwerthusiad ymchwilio i sut yr eir i'r afael â'r materion hyn ac a yw'r system ADY yn cael ei gweithredu'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2023a: 82).

Gyda chynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r galw am wasanaethau addysg arbenigol neu adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gynyddu. Os nad ymdrinnir ag ef, mae'n bosibl y gallai rhai plant a phobl ifanc ag ADY, barhau i'w chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau addysg arbenigol. Mae'n bosibl hefyd na fydd rhai plant ag ADY yn elwa'n llawn o fynediad ehangach at addysg cyfrwng Cymraeg os gwneir dewis i gael mynediad at addysg cyfrwng Saesneg oherwydd DDdY cyfrwng Cymraeg annigonol.

Wrth i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ddatblygu eu haddysg Gymraeg, a chynyddu'r addysg a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, gall fod heriau ychwanegol i rai myfyrwyr ag ADY sy'n gysylltiedig â gwersi pwnc ehangach a allai gael eu cynnal yn Gymraeg, neu gynnydd yn y gwersi Cymraeg (pwnc) os bydd yn arwain at leihad mewn addysgu elfennau eraill o'r cwricwlwm.

Bydd yn ofynnol i ysgolion arbennig cymunedol baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, yn amlinellu'r swm o addysg Gymraeg y maent yn ei darparu, a chynigion o ran sut y byddant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi mwy o ddealltwriaeth ac eglurder i rieni ynghylch y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn yr ysgolion hyn, gan eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd hefyd yn galluogi ysgolion arbennig cymunedol i ehangu mynediad at y Gymraeg mewn ffyrdd sy'n briodol i'w disgyblion.

*Mesurau lliniaru*

Mae cynlluniau eisoes ar waith i gynyddu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cod ADY yn cynnwys gofynion a chanllawiau i ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac eraill mewn perthynas â'r system ADY. Un o egwyddorion craidd y Cod ADY yw creu system ddwyieithog:

> "(e) System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser" (Llywodraeth Cymru, 2021b: 37).

Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu y bwriedir iddynt feithrin gallu ac arbenigedd er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY (gweler Llywodraeth Cymru, 2022: 26-27). At hynny, bydd CSCAau lleol yn golygu y gellir cynllunio yn fwy effeithiol o ran y gweithlu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen. Mae'n ofynnol eisoes i awdurdodau lleol ddefnyddio canfyddiadau eu hadolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i wella darpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pobl ag ADY ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu o fewn y sector ADY. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro'n flynyddol drwy'r CSCAau.

Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y gall y cynnydd tebygol mewn galw am DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r Ddeddf helpu i liniaru rhai heriau allweddol sy'n wynebu cynllunwyr ac ysgolion ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd;

> "mae awdurdodau lleol yn...methu â gweld atebion hawdd o ystyried cyfyngiadau adnoddau ac arian, a'r angen i ddarparu cefnogaeth ADY mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion y mwyafrif" (Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, 2023).

Gan fod y galw am ddarpariaeth yn debygol o gynyddu, ochr yn ochr ag ymdrechion mwy strategol a bwriadol i gynllunio a chynyddu nifer yr ymarferwyr a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gallai'r Ddeddf wneud DDdY cyfrwng Cymraeg yn fwy costeffeithiol.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 hefyd yn nodi'r rhwymedigaeth statudol sydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd DDdY yn Gymraeg ac adrodd ar hyn. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar ganlyniad yr adolygiad cyn 1 Medi, bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (sef 1 Medi 2026). Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp llywio gweithredu ADY cyfrwng Cymraeg i gynghori ar argymhellion i wella mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg a datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Mae arweinydd gweithredu ADY

cenedlaethol penodol ar gyfer yr iaith Gymraeg hefyd wedi'i recriwtio, y mae ei rôl yn cynnwys ystyried argaeledd darpariaeth ledled Cymru a gweithio i ddatblygu a gwella mynediad at, ac ansawdd, darpariaeth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg. Rhaid i'r Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau dilynol cyn 1 Medi bob pum mlynedd ar ôl yr adroddiad cyntaf. Mae hyn yn cyflwyno cyfle pellach i ystyried digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg a mynd i'r afael â hyn. Mae'r adolygiad ar ôl gweithredu yn cynnig cyfle i adeiladu ar hyn, gan ystyried gweithredu ac effeithiau'r Ddeddf mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Heriau ychwanegol posibl i ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.**

Yn ôl data'r CYBLD (Chwefror 2022), o blith y rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, mae 4.3% yn ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae 13.5% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O'i gymharu, o blith y rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg, mae 15.5% yn ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae 23.3% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfyngiadau o ran y data sydd ar gael yn benodol ar iaith addysg plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, credir yn yr un modd bod canran is o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Wrth gwrs, mae'n debygol fod cryn amrywiaeth yn y grwpiau hyn o ddysgwyr mewn perthynas â mynediad at addysg Gymraeg, nad ydym yn ei ddeall yn llawn eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddatblygu gwell dealltwriaeth o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi'u tangynrychioli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac i nodi unrhyw rwystrau posibl. Mewn trafodaethau â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi y gall diffyg gwybodaeth, neu wybodaeth gamarweiniol, ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg atal pobl rhag manteisio arni. Mae'r trafodaethau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ymchwil ansoddol mewn perthynas â gofal plant ac addysg gynnar, a nododd y gall rhieni a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu defnyddio addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar hyn o bryd gael eu hannog i wneud hynny pe baent yn fwy ymwybodol o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2021: 52).

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Ddeddf olygu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", ac yn arbennig mewn ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at yr isafswm oriau gofynnol (10%). Mae'n debygol mai dysgwyr yn yr ysgolion hyn fydd â'r lefel isaf o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac a fydd leiaf cyfarwydd â hi. Mae dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fynychu'r ysgolion hyn, ar gyfartaledd. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi effeithiau'r cynnydd a'r gwelliant mewn addysg Gymraeg yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys y gwell cyfleoedd ond hefyd unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o gyflwyno gwersi pynciau ehangach yn Gymraeg, neu gynnydd mewn gwersi Cymraeg (fel pwnc) os bydd hyn yn arwain at elfennau eraill o'r cwricwlwm yn cael eu haddysgu lai. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Tîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn cynnwys pryderon na ddylai addysgu Cymraeg gael

blaenoriaeth dros addysgu pynciau allweddol megis Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ac na ddylai leihau ansawdd yr addysgu yn y pynciau hynny.

*Mesurau lliniaru*

Caiff ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at yr oriau gofynnol o 10% eu cefnogi mewn llawer o ffyrdd. Ni chaiff yr oriau gofynnol eu cyflwyno yn syth. Bydd amser i ysgolion gynllunio'n briodol er mwyn codi eu darpariaeth addysg Gymraeg tuag at y lefel ofynnol. At hynny, mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi ysgolion i wneud cais i gael eu heithrio dros dro (hyd at dair blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o hyd at dair blynedd arall) rhag y gofyniad i ddarparu addysg Gymraeg yn unol â'u categori iaith, pan fydd angen mwy o amser arnynt i gyrraedd y lefel ofynnol statudol.

Mae risg penodol y gall addysg ehangach gael ei effeithio wrth i'r addysg Gymraeg a ddarperir gynyddu, a hynny ar draul elfennau eraill o’r cwricwlwm o bosibl. Mae’r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol o 10% yn gyfystyr ag oddeutu 2.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn ysgolion “Prif Iaith Saesneg, rhannol Gymraeg”, mae'n debygol y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gyflawni gan wersi Cymraeg (pwnc) yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, a sut i wneud hynny'n briodol. Bydd y canllawiau hefyd yn trafod sut a phryd i ehangu darpariaeth yn briodol mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau/meysydd. O ganlyniad, ystyrir mai risg isel yw hon, sydd ag effaith isel y gellir ei lliniaru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Ddeddf yn gyfle i wella deilliannau ieithyddol grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, gan gynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim – beth bynnag fo categori iaith yr ysgolion y maent yn eu mynychu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen meithrin gwell dealltwriaeth o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi’u tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi.

Mae sicrhau bod pawb yn cael dewis addysg cyfrwng Cymraeg a manteisio arni yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio CSCAau lleol a gwella'r ffordd y maent yn cynllunio darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Bydd sicrhau mynediad at yr iaith yn rhan allweddol o CSCA lleol pob awdurdod lleol a chaiff pob awdurdod lleol ei gyfarwyddo gan ganllawiau Llywodraeth Cymru i ystyried sut y bydd yn cynyddu cyfleoedd i bob dysgwr fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cynnwys grwpiau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol, gan gynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn adeiladu ar brofiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol brofiad o ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i Gymru a rhai y mae eu Saesneg yn gyfyngedig. Mae

wedi datblygu a theilwra cyrsiau ac adnoddau i helpu pobl i ddysgu Cymraeg. Mae hefyd wedi llunio strategaeth er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd yr Athrofa yn gallu adeiladu ar y profiad a'r adnoddau sydd eisoes wedi'u datblygu er mwyn cefnogi a galluogi cynllunwyr addysg ac ysgolion i nodi a goresgyn unrhyw rhwystrau sy'n effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr, wrth ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol i bawb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y gall ysgolion a lleoliadau wella cymorth i ddysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (gweler Llywodraeth Cymru, 2023b). Dylai hyn gefnogi gwaith i ddatblygu darpariaeth effeithiol ac ymatebol ymhellach ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro llwyddiant y broses o roi'r Ddeddf ar waith yn ogystal â gwersi sy'n dod i'r amlwg gan ysgolion ac awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio ar gyfer darpariaethau'r Ddeddf a'u rhoi ar waith. Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr yn ogystal â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r agweddau ar weithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol sydd wedi ategu'r newidiadau a nodwyd gennym. Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnydd yng nghyfran y dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n gallu siarad Cymraeg yn fesur o lwyddiant y Ddeddf.

**Cyfleoedd anffurfiol**

Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar y system addysg statudol, mae cyfleoedd anffurfiol i ddysgu a defnyddio'r iaith yn agwedd bwysig ar ddysgu iaith. Bydd yn ofynnol i ysgolion ddatblygu cynlluniau cyflawni, gan nodi sut y byddant yn cynyddu a/neu'n gwella eu darpariaeth addysg Gymraeg dros gyfnod o amser. Bydd y cynlluniau cyflawni yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion nodi sut y byddant yn hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg yn yr ysgol ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

**Amcanion tlodi plant**

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 yn nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau hirdymor ar gyfer helpu i ddileu tlodi plant ac effeithiau gwaethaf tlodi yng Nghymru dros y degawd nesaf neu fwy. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum amcan. Gall y darpariaethau a nodir yn y Ddeddf hwn gyfrannu yn y ffyrdd canlynol.

Amcan 1: lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd

Er nad yw'r darpariaethau’n anelu'n uniongyrchol at leihau costau a gwneud y gorau o incwm, bydd eu heffaith anuniongyrchol yn cefnogi'r amcan hwn. Yn gyntaf, ac yn fwy uniongyrchol, wrth i nifer ysgolion “Prif Iaith – Cymraeg” gynyddu ledled Cymru, bydd hyn yn lleihau'r angen i ddysgwyr deithio y tu hwnt i'w hardaloedd lleol er mwyn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda rhieni yn awgrymu bod gwella trafnidiaeth i leoliadau cyfrwng Cymraeg ymhlith y ffactorau a fyddai'n annog rhieni i ddefnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2021: 52).

Yn ail, gallai galluogi disgyblion i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, ac i ddangos eu gallu yn unol â lefelau cyfeirio cyffredin a gydnabyddir yn rhyngwladol drwy'r Cod, arwain at ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth iddynt yn y dyfodol.

Amcan 2: creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial

Fel y nodwyd mewn perthynas ag Amcan 1 uchod, gall sgiliau Cymraeg gwell arwain at gyfleoedd cyflogaeth lle mae'r Gymraeg yn sgìl ddymunol neu angenrheidiol. Bydd hyn yn cefnogi pob plentyn i fanteisio ar lwybrau allan o dlodi drwy gyflogaeth.

Amcan 3: cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a gwneud yn siŵr bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd gwella eu sgiliau Cymraeg yn cynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. Bydd mwy o bobl yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltu â nhw, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd yn helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r effaith gadarnhaol y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn ei chael ar blant â nodweddion gwarchodedig. Yn y pen draw, y nod fydd deall pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi ar gyfer y grwpiau hyn – sy'n cynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, dysgwyr ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Amcan 4: sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi

Yn y pen draw, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys, fel y nodwyd uchod, gwaith cynllunio bwriadol i feithrin dealltwriaeth well o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi ar gyfer y grwpiau hyn, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Amcan 5: sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol

Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod gwaith cynllunio gwell a mwy cydgysylltiedig yn cael ei wneud ar gyfer addysg Gymraeg ar lefelau genedlaethol, awdurdod lleol ac ysgol, yn ogystal â rhwng y lefelau hyn. At hynny, bydd sefydlu'r Athrofa Dysgu

Cymraeg Genedlaethol yn cynnig cymorth pellach i awdurdodau lleol ac ysgolion gynllunio a darparu mwy o addysg Gymraeg ac addysg Gymraeg well.

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r Ddeddf wella hawliau plant, ac yn credu y bydd yn gwneud hynny mewn perthynas ag erthyglau 2, 8, 22, 28, 29, 30 a 31. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y darpariaethau yn newid unrhyw erthyglau.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn gwella (X)** | **Yn herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 2**<br>Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. | X | | Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg i bob disgybl yng Nghymru, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. |
| **Erthygl 8**<br>Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu. | X | | I rai, mae'r Gymraeg yn elfen o hunaniaeth genedlaethol. Bydd rhoi mynediad at yr iaith i bob disgybl yng Nghymru yn gwella hawl plant i'w cysyniad o genedligrwydd Cymreig. |
| **Erthygl 22**<br>Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno. | X | | Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg i bob disgybl, ni waeth beth fo cefndir dysgwyr. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth drochi Gymraeg ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr sy'n symud i Gymru yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth i deuluoedd o'r fath ac yn eu galluogi i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a sicrhau y gall eu plant gael yr un cyfleoedd addysgol â phob dysgwr arall yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 28**<br>Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth<br>mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg. Bydd pob dysgwr yng Nghymru yn cael cyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol drwy eu haddysg. |
| **Erthygl 29**<br>Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd. | X | | Mae'r Ddeddf yn cefnogi strategaeth *Cymraeg 2050* sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Drwy'r system addysg statudol, mae darpariaethau'r Ddeddf yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac yn annog plant i fanteisio arnynt. Mewn amser, bydd pob dysgwr yn cael y cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Yn ogystal â manteision dwyieithrwydd a sgiliau Cymraeg o ran cyflogaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd gwella eu sgiliau Cymraeg yn cynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. |
| Erthygl 30<br>Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p’un ai yw’r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio. | X | | Bydd y Ddeddf yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc i gael mynediad at y Gymraeg a diwylliant Cymru drwy hyrwyddo cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio’r iaith yn unol â’u hawliau i gyfranogiad diwylliannol. |
| Erthygl 31<br>Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. | X | | Mae'r Ddeddf yn bwriadu i ysgolion hyrwyddo gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg, a fydd yn cynnwys gweithgareddau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol.<br>Bydd rhoi'r cyfle i bob disgybl gaffael sgiliau Cymraeg gwell yn cynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc. |

## Atodiad B - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb?

*Egwyddor a nodau'r Ddeddf*

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio addysg Gymraeg ledled Cymru, darparu adnoddau ar ei chyfer a chefnogi'r gwaith o'i datblygu. Bydd effaith ar addysg plant a phobl ifanc o ganlyniad i'r newidiadau i brosesau cynllunio, adnoddau a chymorth ysgolion, a fydd yn datblygu dros gyfnod estynedig o amser. Bydd mwy o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol, yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Bwriedir felly i'r Ddeddf hyrwyddo cydraddoldeb ac, yn benodol, gyfle a mynediad cyfartal at addysg Gymraeg.

Bydd y Ddeddf yn ehangu mynediad at y Gymraeg ac yn sicrhau, mewn amser, y gall pob disgybl ddysgu'r iaith a dod yn siaradwyr hyderus ac annibynnol, o leiaf. Fodd bynnag, mae rhoi'r Ddeddf ar waith hefyd yn cynnig cyfle i ystyried darpariaeth addysg Gymraeg i unigolion anabl ymhellach ac mewn perthynas â'r agenda wrth-hiliaeth yn arbennig. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn creu cyfleoedd i gynllunio'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn gynhwysol i bawb. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cydnabod y cyfle hwn:

> "Mae'r Bil hwn yn estyn cyfle gwirioneddol i wneud y Gymraeg yn iaith i bawb gan fod y system addysg yn chwarae'r rhan flaenllaw o ddysgu'r Gymraeg i blant ar draws Cymru, beth bynnag eu hil a'u hethnigrwydd." (ymateb i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, Mudiad Meithrin)

*Elfennau penodol o'r Ddeddf*

**Drwy wneud y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ar gyfer nodau dysgu Cymraeg i bob categori iaith ysgolion**, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru, ni waeth beth fo'r ddaearyddiaeth neu'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol lleol, yn rhan o'r genhadaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 ac yn cael ei gefnogi i gyfrannu at y genhadaeth hon.

**Bydd Cod yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg**. Pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, bydd y lefelau cyfeirio cyffredin yn galluogi pob dysgwr i gyfleu a diffinio ei sgiliau i gyflogwyr yn well, ni waeth ble mae'r cyflogwr na beth yw ei gyd-destun diwylliannol-ieithyddol. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall lefel gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol. O ganlyniad, gallai hyn leihau'r risg y bydd cyflogwyr yn defnyddio barn oddrychol, a allai fod yn rhagfarnllyd neu'n ystrydebol, am alluoedd ieithyddol ymgeisydd. Er enghraifft, tybir weithiau na all Cymry Du siarad Cymraeg (gweler BBC, 2020; 2020b).

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn o'r farn y byddai cael un continwwm Cymraeg fel hyn yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol a mwy o eglurder i rieni a disgyblion ynghylch y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr ym mhob categori

iaith ysgol. Roedd cyfran y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn a oedd yn cytuno â'r egwyddor o gyflwyno continwwm sgiliau Cymraeg yn 93%, ac nid oedd unrhyw sefydliadau yn anghytuno. Credwyd y byddai continwwm sgiliau Cymraeg yn darparu fframwaith cyffredin i gefnogi cyflogwyr yn ystod prosesau recriwtio i asesu a chyfleu'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol mewn rolau unigol.

> “Gall continwwm o’r fath fod yn fframwaith cynllunio a mesur i’r sector addysg o’r bôn i’r brig, ac ymhellach na hynny yn y byd gwaith a chyflogaeth.” (Ymateb i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, Comisiynydd y Gymraeg)

Mewn perthynas â **chategoreiddio iaith ysgolion,** mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau eglurder o ran y swm o addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion ym mhob categori iaith. Bydd categoreiddio yn rhoi eglurder i rieni/gwarcheidwaid a dysgwyr ynglŷn â'r ddarpariaeth iaith yn eu hysgol a'r nodau dysgu Cymraeg. Roedd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn cytuno'n gryf y byddai rhoi statws statudol i'r system categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir yn creu sylfaen gryfach. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd o'r farn y byddai disgrifiadau'r categorïau yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion. At hynny, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai categoreiddio yn atgyfnerthu'r angen i ysgolion gynllunio ar gyfer anghenion dysgu proffesiynol eu gweithlu ac, yn ei dro, ysgogi'r newid sydd ei angen ym mhob ysgol er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar addysg Gymraeg a chyfleoedd i ddod yn siaradwyr hyderus ac annibynnol dros amser.

Bydd darpariaethau sy'n ymwneud â **Chynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg** (CSCAau lleol) yn darparu ar gyfer gwaith cynllunio mwy effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â grwpiau lleiafrifol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cynllunwyr addysg yn cael cyfleoedd dros amser i feithrin dealltwriaeth well o ofynion cymorth a dysgu pob dysgwr sy'n byw yn eu hardal. Hefyd, nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn eu bod yn credu y byddai'r cynnig y byddai Gweinidogion Cymru yn pennu targedau lleol i bob awdurdod lleol, sy'n cysylltu â thargedau cenedlaethol drwy'r Fframwaith Cenedlaethol, yn ffordd o bennu nodau priodol, heriol a chyflawnadwy i awdurdodau lleol gwahanol. Yn ei dro, byddai hyn yn golygu y byddai prosesau cynllunio addysg yn adlewyrchu cyd-destunau ieithyddol gwahanol ac ystyriaethau demograffig gwahanol ledled Cymru. Bydd y cymorth a gynigir i gynllunwyr addysg yn golygu y bydd modd cynllunio a darparu addysg Gymraeg mewn ffordd fwy ymatebol, gan arwain at ddeilliannau ieithyddol gwell i ddysgwyr.

Bydd gosod **dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hyrwyddo a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir yn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”** yn gwella dealltwriaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ac yn egluro'r nodau dysgu Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ac, fel y cyfryw, mae angen cymryd camau ychwanegol i esbonio addysg cyfrwng Cymraeg i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, neu nad ydynt yn gyfarwydd â chyd-destun diwylliannol-ieithyddol neu addysgol Cymru. Bydd pawb yn cael budd o gael gwell gwybodaeth am gyd-destun ieithyddol Cymru ac, o ganlyniad, byddant mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r

farn y bydd y ddarpariaeth yn cael effaith benodol ar bobl sydd â llai o ddealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol yng Nghymru ac sy'n llai cyfarwydd ag ef, neu'r rhai nad ydynt yn ymwybodol y gall plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymhlith eraill, gallai hyn fod o fudd i rai grwpiau yn arbennig, gan gynnwys pobl sydd wedi symud i Gymru, a dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol.

Pwysleisiodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y gallai rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg helpu i roi mwy o eglurder a gwybodaeth i rieni o ran y ddarpariaeth mewn ysgolion a'r nodau dysgu Cymraeg. Drwy roi mandad ffurfiol ar waith, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai rhieni gael gwybodaeth fwy cynhwysfawr am yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl rhai ymatebwyr, gallai hyn rymuso rhieni i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch addysg eu plant. Hefyd, nododd ymchwil ansoddol mewn perthynas â gofal plant ac addysg gynnar y gallai rhieni a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu defnyddio addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar hyn o bryd gael eu hannog i wneud hynny pe baent yn fwy ymwybodol o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2021a: 52).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg drochi Gymraeg ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag annog y galw amdani a darparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'i hargaeledd. Bydd y ddarpariaeth hon yn ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac yn sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael i'r rhai sy'n dewis ymuno ar bwyntiau mynediad amrywiol. Mae hyn hefyd yn arbennig o berthnasol i deuluoedd sy'n symud i Gymru. Bydd yn rhoi mwy o gymorth iddynt ac yn galluogi teuluoedd o'r fath i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, gan sicrhau, ar yr un pryd, y gall eu plant gael yr un cyfleoedd addysgol â phob dysgwr arall yng Nghymru.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu corff statudol newydd, yr **Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Bydd yr Athrofa yn allweddol wrth gefnogi ysgolion, dysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid wrth i'r Ddeddf gael ei roi ar waith. Bydd hyn yn allweddol i wireddu amcanion y Ddeddf. Ymhlith pethau eraill, disgwylir y bydd yr Athrofa yn ymgymryd â'r dyletswyddau a gaiff eu cyflawni gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar hyn o bryd. Cafodd y Ganolfan ei chanmol yn adolygiad Estyn o'r Ganolfan ac mewn Adroddiad Adolygiad Cyflym yn 2021, rhoddwyd canmoliaeth arbennig i'w harweinyddiaeth. Argymhellodd yr adolygiad cyntaf y dylai'r Ganolfan rannu'r arbenigedd o ran caffael a dysgu'r iaith ag ysgolion.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi llunio strategaeth er mwyn ymgysylltu mwy â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael digon o gyfleoedd, a chyfleoedd addas, i ddysgu Cymraeg. Mae gan y Ganolfan brofiad o ymgysylltu â phobl sydd wedi symud i Gymru ac sy'n newydd i'r wlad hefyd, a'r rhai y mae eu Saesneg yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae wedi datblygu cyrsiau ac adnoddau yn ddiweddar i helpu pobl i ddysgu Cymraeg drwy gyfrwng Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Ffarsi a Pashto. At hynny, mewn partneriaeth â'r

Groes Goch, mae'r Ganolfan wedi mireinio a datblygu ei chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy ddatblygu gwersi wyneb yn wyneb mewn lleoliadau priodol.

Bydd yr Athrofa yn gallu adeiladu ar brofiad a hanes y Ganolfan o ddatblygu cyrsiau a dysgu Cymraeg i bobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf – er bod hyn yn y sector ôl-16 yn unig ar hyn o bryd – er mwyn cefnogi ysgolion a chynllunwyr addysg ymhellach a'u galluogi i ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol i bawb, a helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

**Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?**

*Heriau ychwanegol posibl i ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

Yn ôl data'r CYBLD (Chwefror 2022), mae 4.3% o’r rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn ddisgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, o gymharu â 15.5% o’r rhai sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg (Gweler Tabl 1 isod).

Tabl 1: Nifer a chyfran y dysgwyr sy’n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

| Math o ysgol | Nifer y disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | Canran y disgyblion sy’n Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol |
|---|---:|---:|
| Cyfrwng Cymraeg | 3,284 | 4.3% |
| Dwy ffrwd | 501 | 6.8% |
| Trosiannol | 14 | 3.7% |
| Dwyieithog math A | 270 | 2.6% |
| Dwyieithog math B | 593 | 5.8% |
| Dwyieithog math C | 153 | 5.2% |
| Dwyieithog math Ch | 0 | (z) |
| Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg | 1,247 | 11.2% |
| Cyfrwng Saesneg | 52,917 | 15.5% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Chwefror 2022 (z = ddim yn gymwys)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddatblygu gwell dealltwriaeth o’r patrymau hyn. Mae trafodaethau â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg wedi awgrymu y gall diffyg gwybodaeth, neu wybodaeth gamarweiniol, ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg atal pobl rhag manteisio arni. Mae'r trafodaethau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ymchwil ansoddol mewn perthynas â gofal plant ac addysg gynnar, a nododd y gall rhieni a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu defnyddio addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar hyn o bryd gael eu hannog i wneud hynny pe baent yn fwy ymwybodol o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol (Llywodraeth Cymru, 2021: 52). Mae cyfyngiadau o ran y data sydd ar gael ar iaith addysg plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn

benodol. Fodd bynnag, credir yn yr un modd bod canran is o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Ddeddf olygu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", ac yn arbennig mewn ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at yr isafswm oriau gofynnol (10%). Mae'n debygol mai dysgwyr yn yr ysgolion hyn fydd â'r lefel isaf o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac a fydd leiaf cyfarwydd â hi. Ar gyfartaledd, mae dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fynychu'r ysgolion hyn. O ganlyniad, maent yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi effeithiau'r cynnydd a'r gwelliant mewn addysg Gymraeg yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys y gwell cyfleoedd ond hefyd unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o gyflwyno gwersi pynciau ehangach yn Gymraeg, neu gynnydd mewn gwersi Cymraeg (fel pwnc) os bydd hyn yn arwain at elfennau eraill o'r cwricwlwm yn cael eu haddysgu lai. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Tîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn cynnwys pryderon na ddylai addysgu Cymraeg gael blaenoriaeth dros addysgu pynciau allweddol megis Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ac na ddylai leihau ansawdd yr addysgu yn y pynciau hynny

*Mesurau lliniaru*

Caiff yr ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at yr oriau gofynnol o 10% eu cefnogi mewn llawer o ffyrdd. Ni chaiff yr oriau gofynnol eu cyflwyno yn syth. Bydd amser i ysgolion gynllunio'n briodol er mwyn codi eu darpariaeth addysg Gymraeg tuag at y lefel ofynnol.

Mae risg bellach y gellir effeithio ar addysg ehangach wrth i'r addysg Gymraeg a ddarperir gynyddu, a hynny ar draul elfennau eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol o 10% yn gyfystyr ag oddeutu 2.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", mae'n debygol y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gyflawni gan wersi Cymraeg (fel pwnc) yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, a sut i wneud hynny'n briodol. Bydd y canllawiau hefyd yn trafod sut a phryd i ehangu darpariaeth yn briodol mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau/meysydd. O ganlyniad, ystyrir mai risg isel yw hon, sydd ag effaith isel y gellir ei lliniaru.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Ddeddf yn gyfle i wella deilliannau ieithyddol grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, gan gynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol,  gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel – beth bynnag fo categori iaith yr ysgolion y maent yn eu mynychu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen datblygu gwell dealltwriaeth o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi'u tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n cael eu nodi.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn adeiladu ar brofiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol brofiad o ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol, gan

gynnwys y rhai sy'n newydd i Gymru a rhai y mae eu Saesneg yn gyfyngedig. Mae wedi datblygu a theilwra cyrsiau ac adnoddau i helpu pobl i ddysgu Cymraeg. Mae hefyd wedi llunio strategaeth er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd yr Athrofa yn gallu adeiladu ar y profiad a'r adnoddau sydd eisoes wedi'u datblygu er mwyn cefnogi a galluogi cynllunwyr addysg ac ysgolion i nodi a goresgyn unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr, wrth ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol i bawb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y gall ysgolion a lleoliadau wella cymorth i ddysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (gweler Llywodraeth Cymru, 2023b). Dylai hyn gefnogi gwaith i ddatblygu darpariaeth effeithiol ac ymatebol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion ymhellach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro llwyddiant y broses o roi'r Ddeddf ar waith yn ogystal â gwersi sy'n dod i'r amlwg gan ysgolion ac awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio ar gyfer darpariaethau'r Ddeddf a'u rhoi ar waith. Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr yn ogystal â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a’r agweddau ar weithredu ar lefel genedlaethol a lleol sydd wedi ategu'r newidiadau a nodwyd gennym. Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnydd yng nghyfran y dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n gallu siarad Cymraeg yn fesur o lwyddiant y Ddeddf.

**Arallgyfeirio'r proffesiwn**

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn her bellach ac allweddol i Lywodraeth Cymru. Nododd rhai ymatebwyr fod diffyg amrywiaeth yn y sector addysg ar hyn o bryd, a bod angen cymryd camau i ddenu mwy o unigolion o grwpiau lleiafrifol i'r proffesiwn. Ategwyd hyn gan gyflwyniad y Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc, a nododd fod pobl ifanc yn aml yn sôn am ddiffyg amrywiaeth yn y proffesiwn, yn arbennig mewn perthynas ag athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac athrawon anabl.

*Mesurau lliniaru*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd proffesiwn amrywiol yn rhoi hwb mawr i ymdrechion i ddatblygu addysgu effeithiol ac ymatebol a mynediad at y Gymraeg i bawb. Mae’r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys gwybodaeth yn eu CSCAau lleol ar y gweithlu addysg yn eu hardal a'r camau y byddant yn eu cymryd i sicrhau gweithlu digonol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i weithredu eu cynlluniau. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol gydnabod yr heriau yn eu cynlluniau hirdymor ar gyfer y gweithlu a cheisio mynd i'r afael â nhw. ‘Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg’ yw cynllun deng mlynedd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion er mwyn cyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Mae'n nodi nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys y rhai i helpu i gynyddu nifer yr athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector cyfrwng Cymraeg yn unol â'r ‘Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd

Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon' (gweler Llywodraeth Cymru, 2021; 2023: 16).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu monitro cyfansoddiad y gweithlu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan lywio a chefnogi ymdrechion i wneud y proffesiwn yn fwy amrywiol a chreu modelau rôl a hyrwyddwyr ar gyfer grwpiau lleiafrifol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd swyddi gwag yn codi mewn rhai ysgolion yn y byrdymor ac mai dim ond dros gyfnod hwy o amser y gellir gwella amrywiaeth y gweithlu. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ystyried ffyrdd ychwanegol a gwahanol o fynd i'r afael â'r her hon yn y byrdymor, a fydd yn cael ei ystyried ymhellach wrth weithredu'r Ddeddf.

**Effeithiau posibl mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfeiriwyd at y mater hwn gan nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn. Yn eu papur polisi 'Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol', nododd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru na all sawl awdurdod lleol bennu a yw anghenion yn cael eu diwallu, a nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol na allant gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer llawer o anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i rai dysgwyr gael cymorth yn Saesneg felly, neu ddewis addysg cyfrwng Saesneg o'r dechrau, gan wybod nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn ddigonol. Mae'r adroddiad yn nodi bod dwy her allweddol i ddarparu cymorth DDdY digonol drwy gyfrwng y Gymraeg: diffyg gweithlu arbenigol sydd â'r sgiliau iaith ac anhawster wrth gynnig darpariaeth arbenigol pan fydd y niferoedd sy'n debygol o fanteisio ar y ddarpariaeth yn gymharol isel (gweler papur Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, 2023).

Gyda chynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n debygol y bydd y galw am wasanaethau addysg arbenigol neu adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu. Os nad ymdrinnir ag ef, mae'n bosibl y gallai plant a phobl ifanc ag ADY, barhau i'w chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau addysg arbenigol. Mae'n bosibl hefyd na fydd rhai plant ag ADY yn elwa'n llawn o fynediad ehangach at addysg cyfrwng Cymraeg os gwneir dewis i gael mynediad at addysg cyfrwng Saesneg oherwydd DDdY cyfrwng Cymraeg annigonol.

Wrth i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ddatblygu eu haddysg Gymraeg, a chynyddu'r addysg a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, gall fod heriau ychwanegol i rai myfyrwyr ag ADY sy'n gysylltiedig â gwersi pwnc ehangach a allai gael eu cynnal yn Gymraeg, neu gynnydd yn y gwersi Cymraeg (pwnc) gan arwain at leihad mewn addysgu elfennau eraill o'r cwricwlwm. Mae'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir yn cyfeirio at ganran yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn ystod sesiynau'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol; hynny yw, ar sail gyfun, yn hytrach nag ar gyfer pob plentyn unigol.

Bydd yn ofynnol i ysgolion arbennig cymunedol baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, yn amlinellu'r swm o addysg Gymraeg y maent yn ei darparu, a chynigion

o ran sut y byddant yn hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg o fewn yr ysgol. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi mwy o ddealltwriaeth ac eglurder i rieni ynghylch y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn yr ysgolion hyn, gan eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd hefyd yn galluogi ysgolion arbennig cymunedol i ehangu mynediad at y Gymraeg mewn ffyrdd sy’n briodol i’w disgyblion.

*Mesurau lliniaru*

Mae cynlluniau eisoes ar waith i gynyddu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cod ADY yn cynnwys gofynion a chanllawiau i ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac eraill mewn perthynas â'r system ADY. Un o egwyddorion craidd y Cod ADY yw creu system ddwyieithog:

> “(e) System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy’r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy’r Gymraeg dros amser” (Llywodraeth Cymru, 2021b: 37).

Mae ‘Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg’ hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu y bwriedir iddynt feithrin gallu ac arbenigedd er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY (gweler Llywodraeth Cymru, 2022: 26-27). At hynny, bydd CSCAau lleol yn golygu y gellir cynllunio yn fwy effeithiol o ran y gweithlu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen. Mae'n ofynnol eisoes i awdurdodau lleol ddefnyddio canfyddiadau eu hadolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i wella darpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pobl ag ADY ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu o fewn y sector ADY. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro'n flynyddol drwy'r CSCAau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y gall y cynnydd tebygol mewn galw am DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg o ganlyniad i'r Ddeddf helpu i liniaru rhai heriau allweddol sy'n wynebu cynllunwyr ac ysgolion ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd;

> “mae awdurdodau lleol yn...methu â gweld atebion hawdd o ystyried cyfyngiadau adnoddau ac arian, a’r angen i ddarparu cefnogaeth ADY mewn ffordd sy’n ymateb i anghenion y mwyafrif” (Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, 2023).

Gan fod y galw am ddarpariaeth yn debygol o gynyddu, ochr yn ochr ag ymdrechion mwy strategol a bwriadol i gynllunio a chynyddu nifer yr ymarferwyr a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gallai'r Ddeddf wneud DDdY cyfrwng Cymraeg yn fwy costeffeithiol.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 hefyd yn nodi'r rhwymedigaeth statudol sydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd DDdY yn Gymraeg ac adrodd ar hyn. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar ganlyniad yr adolygiad cyn 1 Medi, bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (sef 1 Medi 2026). Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp llywio gweithredu ADY cyfrwng Cymraeg i gynghori ar argymhellion i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Mae arweinydd gweithredu ADY cenedlaethol penodol ar gyfer yr iaith Gymraeg hefyd wedi'i recriwtio gyda’i rôl yn cynnwys ystyried argaeledd DDdY ledled Cymru a gweithio i ddatblygu a gwella

mynediad at, ac ansawdd, darpariaeth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau dilynol cyn 1 Medi bob pum mlynedd ar ôl yr adroddiad cyntaf. Mae hyn yn cyflwyno cyfle pellach i ystyried digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg a mynd i'r afael â hyn. Mae'r adolygiad ar ôl gweithredu yn cynnig cyfle i adeiladu ar hyn, gan ystyried gweithredu ac effeithiau'r Ddeddf mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Trin un iaith yn fwy ffafriol nag un arall**

Mewn perthynas â rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau yn eu CSCAau lleol i hyrwyddo'r addysg Gymraeg a ddarperir yn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg", roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn bryderus y gallai ffafrio un iaith neu un model wahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn siaradwyr Saesneg. Er na chaiff 'siaradwyr Saesneg' eu diffinio gan yr ymatebwyr, ac nid yw'n nodwedd warchodedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall hwn gynnwys pobl sydd â nodwedd warchodedig.

*Mesurau lliniaru*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod darpariaethau'r Ddeddf yn 'ffafrio' un iaith dros un arall. Yn hytrach, maent yn hyrwyddo argaeledd darpariaeth drwy iaith leiafrifol a mynediad ati. Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ac, fel y cyfryw, mae angen cymryd camau ychwanegol i esbonio addysg cyfrwng Cymraeg i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, neu nad ydynt yn gyfarwydd â chyd-destun diwylliannol-ieithyddol neu addysgol Cymru. Bydd y darpariaethau hyn yn gwella mynediad at wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg i bawb, ond byddant o fudd arbennig i grwpiau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, roedd 85% o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, a galwodd ymatebwyr am fwy o waith i gyfleu a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â manteision addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cofnod o effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig cofnodi unrhyw gyfleoedd a nodwyd gennych a allai hyrwyddo neu hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys nodi beth y gallwch ei wneud i ddileu rhwystrau a gwella cyfranogiad i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd o dan anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu effeithiau ar gydraddoldeb.* Tynnwch sylw at unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd gennych ac eglurwch sut rydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hynny, os o gwbl.

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|

| | neu negyddol y cynnig? | | |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Dim effaith wedi'i nodi | Mae'r darpariaethau yn effeithio ar addysg statudol yn uniongyrchol. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy'n analluogi pobl sydd â gwahanol fathau o namau) | Cadarnhaol a negyddol | **Cadarnhaol**<br>Bydd y darpariaethau yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.<br>Un o'r deilliannau yn y CSCAau lleol fydd gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY, gan alluogi mwy o'r rhai hynny y mae angen DDdY arnynt i fanteisio arno drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd ysgolion arbennig cymunedol yn amlinellu'r swm o addysg Gymraeg y byddant yn ei darparu, a sut y byddant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol, gan ehangu mynediad at y Gymraeg yn yr ysgolion hyn mewn ffyrdd sy'n briodol i'w disgyblion.<br>**Negyddol**<br>Wrth i ysgolion ddatblygu eu darpariaeth addysg Gymraeg a chynyddu'r dysgu a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, gall y galw am wasanaethau addysg arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu. Os nad | Mae cynlluniau eisoes ar waith i gynyddu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd CSCAau lleol a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn helpu i wella DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y cynnydd tebygol mewn galw alluogi cynllunwyr addysg i ddarparu ymatebion mwy cost-effeithiol i heriau a rhwystrau allweddol i DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir yn cyfeirio at ganran yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn ystod sesiynau'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol; hynny yw, ar sail gyfun, yn hytrach nag ar gyfer pob plentyn unigol. |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am 'y model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymdrinnir ag ef, mae'n bosibl y gallai rhai grwpiau gwarchodedig, megis plant a phobl ifanc ag ADY, barhau i'w chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau addysg arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ddatblygu eu haddysg Gymraeg, a chynyddu'r addysg a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, efallai y bydd heriau ychwanegol i rai myfyrwyr ag ADY sy'n gysylltiedig â gwersi pwnc ehangach a allai gael eu cyflwyno yn Gymraeg, neu gynnydd yn y gwersi Cymraeg (pwnc) sy'n arwain at ostyngiad mewn addysgu elfennau eraill o'r cwricwlwm. | |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Dim effaith wedi'i nodi | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith wedi'i nodi | | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol a negyddol | **Cadarnhaol**<br>Bydd y Ddeddf yn rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Bydd y darpariaethau yn ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.<br>Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg drochi Gymraeg ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Ddeddf yn gyfle i wella deilliannau ieithyddol dysgwyr nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, gan gynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>Bydd hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg yn gwella mynediad at y Gymraeg i bobl sy'n symud i Gymru yn ystod eu taith addysg.<br>Bydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adeiladu ar brofiad ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y ddarpariaeth hon yn golygu y gall pob plentyn a pherson ifanc gael addysg cyfrwng Cymraeg, a'r cymorth angenrheidiol os byddant yn dewis gwneud hynny.<br><br>Bydd categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir, yn rhoi gwell dealltwriaeth i rieni a dysgwyr o ddarpariaeth iaith ysgolion yn ogystal â'u nodau dysgu Cymraeg.<br><br>**Negyddol**<br><br>Ar gyfartaledd, mae dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn fwy tebygol o fynychu ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", sy'n wynebu'r newidiadau a'r diwygiadau mwyaf er mwyn cyflawni'r nifer gofynnol o oriau o 10% o addysg Gymraeg. O ganlyniad, maent yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi effaith unrhyw heriau yn yr ysgolion hyn sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o gyflwyno gwersi pynciau ehangach yn Gymraeg, neu gynnydd mewn gwersi Cymraeg (fel pwnc) os bydd hyn yn arwain at elfennau eraill o'r cwricwlwm yn cael eu haddysgu lai. | adnoddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ran helpu oedolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, y rhai sy'n newydd i Gymru a'r rhai y mae eu Saesneg yn gyfyngedig. Bydd yr Athrofa yn gallu adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn cefnogi cynllunwyr addysg ac ysgolion i nodi a goresgyn unrhyw rhwystrau sy'n effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr, wrth ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol i bawb.<br><br>Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr yn ogystal â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Dim effaith wedi'i nodi | Er nad oes unrhyw effaith benodol wedi'i nodi, mae llawer o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu a reolir hefyd yn ysgolion â chymeriad crefyddol neu mae ganddynt gysylltiadau ffurfiol â sefydliad ffydd. Caiff yr ysgolion hyn eu categoreiddio o hyd a bydd dyletswydd arnynt i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw / Rhywedd | Dim effaith wedi'i nodi | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Dim effaith wedi'i nodi | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith wedi'i nodi | | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol | Disgwylir i'r Ddeddf gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.<br><br>Bydd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cynnig cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.<br><br>Bydd hyn hefyd yn golygu bod gan blant a phobl ifanc sgiliau Cymraeg gwell, gan ehangu eu cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol o bosibl er mwyn cynnwys y rhai lle mae'r Gymraeg yn sgìl ddymunol neu angenrheidiol. | |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol | Trafodir y mater hwn yn fanwl yn yr 'Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol'.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Nid yw dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y dysgwyr hyn yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Gall sgiliau Cymraeg gwell arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth iddynt yn y dyfodol drwy gynnwys rhai lle mae'r Gymraeg yn sgìl ddymunol neu angenrheidiol. Mae'n bosibl y | Mae'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol o 10% yn gyfystyr ag oddeutu 2.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", mae'n debygol y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gyflawni gan wersi Cymraeg (fel pwnc) yn bennaf.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, a sut i wneud hynny'n briodol. Bydd y canllawiau hefyd yn trafod sut a phryd i ehangu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bydd hyn yn cefnogi llwybrau allan o dlodi drwy gyflogaeth.<br><br>**Negyddol**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y risg y gall y darpariaethau gael effaith negyddol ar y dysgwyr hyn yn y byrdymor, wrth i'r ysgolion y maent yn eu mynychu ddatblygu a chynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg dros amser.<br><br>Yn benodol, mae risg y gall addysg ehangach gael ei effeithio wrth i'r addysg Gymraeg a ddarperir gynyddu, a hynny ar draul elfennau eraill o’r Cwricwlwm o bosibl. | darpariaeth yn briodol mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau/meysydd. O ganlyniad, ystyrir mai risg isel yw hon, sydd ag effaith isel y gellir ei lliniaru. |

## Atodiad C - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

### Cyflwyniad

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad. Mae tair thema rhyng-gysylltiedig i **strategaeth Cymraeg 2050**:

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil

Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

**A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr a'r* Rhaglen Waith gysylltiedig?**

Ydy – Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y system addysg rôl allweddol wrth wireddu'r targedau o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg i 20% erbyn 2050. Un o nodau'r strategaeth yw 'creu system addysg

statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus’. Nod y Ddeddf hwn yw cyflawni'r targedau hyn drwy ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru, waeth ble maent yn byw, a thrwy sicrhau bod yr addysg Gymraeg ym mhob ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Mae rhoi sail statudol i darged *Cymraeg 2050* o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn fodd o gynyddu ymwybyddiaeth o’r cyswllt rhwng y system addysg a’r ymdrechion i wireddu amcanion y strategaeth.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn cyfeirio at addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y ‘prif ddull’ o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth i hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg er mwyn ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, i'r rhai sy'n dymuno ei chael ar bwynt mynediad hwyrach.

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y sector cyfrwng Saesneg gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi bod angen ‘gweddnewid’ y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu yn yr ysgolion hyn. Datgana’r bwriad i ddatblygu ‘un continwwm ar gyfer addysgu’r Gymraeg’ ac mae’r darpariaethau yn y Ddeddf mewn perthynas â disgrifio gallu yn y Gymraeg, a darparu nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion, yn ôl categori iaith, yn cysylltu’n glir â hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ddysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr ddealltwriaeth gyffredin o’r daith i ddysgu Cymraeg a’r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o’r daith honno.

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan awdurdodau lleol rôl i ymateb i nod y strategaeth o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy’r system addysg statudol, drwy arweinyddiaeth glir ac uchelgais a hefyd drwy gynllunio ieithyddol ac addysgol bwriadus, a chefnogi'r nod hwn. Mae’r darpariaethau yn y Ddeddf i ddiwygio CSCAau awdurdodau lleol yn cysylltu â hyn.

Mae’r darpariaethau yn y Ddeddf yn cysylltu â sawl ymrwymiad a gyflwynir yn Rhaglen Waith 2021-26 *Cymraeg 2050* – ac mewn rhai achosion, maent wedi mynd gam ymhellach:

- “Datblygu strategaeth pum-mlynedd ar gyfer caffael a dysgu’r Gymraeg gydol oes—o’r blynyddoedd cynnar, yn ystod cyfnod addysg statudol ac addysg ôl-orfodol, yn y gweithle ac yn y gymuned”
- “Cyflwyno Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg i gryfhau a chynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru a sicrhau bod y CSCAau yn cael eu cyflawni ym mhob sir er mwyn gwneud mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a theg”
- “Ehangu’r Rhaglen Drochi Hwyr i Ddisgyblion i sicrhau bod gan yr holl newydd-ddyfodiaid i’r iaith fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei hangen arnyn nhw a lle bynnag y maen nhw ar eu taith dysgu”
- “Symleiddio sut rydyn ni’n categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o’r Gymraeg er mwyn rhoi eglurder ynghylch y cynnydd ieithyddol disgwyliedig a’r deilliannau i

ddisgyblion yn ôl cyfrwng addysgu'r ysgol, yn ogystal ag annog a chefnogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg"

- "Ehangu rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a darparu llwybr dysgu iaith o'r ysgol i addysg ôl-orfodol, mewn cydweithrediad â'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol"

**Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

Bydd y darpariaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy ehangu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, waeth beth fo categori iaith yr ysgol y maent yn mynd iddi neu ym mha gymuned y maent yn byw.

**Effaith cynigion penodol**

*Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith.*

Bydd rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o leiaf o siaradwyr Cymraeg yn gosod sylfaen gadarn i awdurdodau lleol allu gwneud penderfyniadau uchelgeisiol ynghylch addysg Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Bwriedir i'r targed ysgogi ymrwymiad awdurdodau lleol i'r uchelgais o greu miliwn o siaradwyr, ac i roi cynlluniau bwriadus ar waith er mwyn cyrraedd y targed.

Yn y tymor hir, disgwylir i'r dyletswyddau hyn gyfrannu at wella sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys y gweithlu addysg, gyda mwy o ddisgyblion yn mynd i'r gweithle gyda gwell sgiliau Cymraeg.

Bydd yr adolygiad o Safonau'r Gymraeg hefyd yn ystyried sut mae'r Safonau yn cyd-fynd â darpariaethau'r Ddeddf, ac yn benodol y targed statudol a'r Cod.

*Cod er mwyn sefydlu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.*

Bydd y Cod yn cyfrannu at osod sail i gynllunio dysgu Cymraeg gydol oes ac yn galluogi dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr i feithrin dealltwriaeth gyffredin o daith unigolyn i ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol a ddisgwylir ar bob cam o'r daith.

*Categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir a chynlluniau cyflawni ysgolion*

Bydd darpariaethau'r Ddeddf hwn yn arwain at fwy o ddisgyblion mewn addysg statudol ledled Cymru yn cael mwy o addysg Gymraeg ac addysg well. Bydd yn gwneud hyn drwy gynyddu a gwella addysg Gymraeg ym mhob ysgol, gan roi cyfle i bob disgybl ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad i ysgolion a gynhelir gynyddu a gwella eu darpariaeth addysg Gymraeg, boed hynny yn gynnydd oddi fewn i gategori neu yn symud i gategori uwch.

Bydd y Ddeddf yn arwain at fwy o ddisgyblion â mwy o sgiliau ledled Cymru. Y bwriad yw i hyn, yn ei dro, gynyddu cyfleoedd i bobl ymwneud a chyfathrebu â'i gilydd yn y Gymraeg, mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys y gweithle. Yn y tymor hir, disgwylir i'r ddarpariaeth gyfrannu at wella sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys y

gweithlu addysg, gyda mwy o ddisgyblion yn mynd i'r gweithle gyda gwell sgiliau Cymraeg,

*Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg*

Drwy'r Fframwaith Cenedlaethol, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r cyfeiriad strategol er mwyn i'r sector dysgu a chaffael Cymraeg cyfan gyflawni'r nod hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr a chreu un system sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr.

Bydd y ddarpariaeth hon o'r Ddeddf yn cefnogi nod *Cymraeg 2050* o "[g]reu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus" drwy roi cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth glir i awdurdodau lleol am y disgwyliadau sydd arnynt i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg. Drwy dargedau a bennir ar gyfer pob awdurdod lleol, bydd yn cysylltu'r targed o filiwn o siaradwyr â CSCAau lleol awdurdodau lleol. Bydd yn creu un fframwaith cydlynol sy'n canolbwyntio ar ddysgu a chaffael y Gymraeg, gan uno'r holl elfennau a sicrhau bod yr holl bartneriaid yn y maes yn gweithio tuag at un nod. Bydd yn rhoi arweiniad i'r sawl sydd yn cefnogi'r system addysg o ran caffael a dysgu'r Gymraeg a thrwy hyn, yn gosod y seiliau ar gyfer hwyluso'r daith ieithyddol ar gyfer ysgolion a disgyblion Cymru.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth hon o'r Ddeddf, bydd disgyblion, beth bynnag fo'u hoedran, yn gallu parhau i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu hoes. Bydd yn ehangu mynediad disgyblion yng Nghymru at addysg Gymraeg, fel eu bod yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Fel y cyfryw, bydd yn cyfrannu at hybu'r Gymraeg ym mhob ardal.

Yn y pen draw, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar oedolion, gan gynyddu sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu, a fydd yn galluogi cyrff a sefydliadau o bob math i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg.

*Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg*

Bydd CSCAau lleol yn cefnogi cynnydd a gwelliant mewn addysg Gymraeg ledled Cymru, ac yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Fel rhan o'r ddarpariaeth hon, bydd awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gyflawni'r targed(au) unigol a bennwyd ar eu cyfer gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol, drwy'r system addysg, yn cynnal neu'n gwella cynaliadwyedd eu cymunedau Cymraeg.

Bydd casglu data blynyddol ar niferoedd y plant sy'n dechrau yn yr ysgol, data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), yn ogystal ag adroddiadau blynyddol ar gynnydd, yn galluogi Llywodraeth Cymru i olrhain cynnydd a llwyddiant y Ddeddf o ran datblygu addysg Gymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth a data.

*Hyrwyddo addysg Gymraeg yn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg"*

Bydd y ddarpariaeth hon yn ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru dros amser. Byddai'n helpu rhieni a gofalwyr i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran iaith addysg eu plant, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau

gwybodus. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at nifer y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn cefnogi disgyblion sy'n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar bwynt mynediad hwyrach.

*Canoli darpariaeth cymorth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, o fewn un sefydliad*

Mae canoli darpariaeth cymorth arbenigol o fewn yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig sefydlogrwydd, cysondeb a chyfeiriad hirdymor i'r sector dysgu Cymraeg.

## Atodiad D – Asesiad Dyletswydd Economiadd-Gymdeithasol

### Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Nod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yw ehangu mynediad at y Gymraeg, a sicrhau bod pob plentyn, waeth ble mae'n byw yng Nghymru a waeth beth fo'i gefndir ieithyddol neu gefndir arall, yn cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o newidiadau sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru, darparu adnoddau ar ei chyfer a chefnogi'r gwaith o'i datblygu. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael effeithiau uniongyrchol ar brosesau cynllunio addysg a'r gweithlu. Bydd effaith ar blant a phobl ifanc hefyd, dros gyfnod hwy, oherwydd y newidiadau i addysg Gymraeg mewn ysgolion. Disgwylir y bydd yr effaith yn gadarnhaol ar y cyfan, gan y bydd dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Wrth geisio deall sut mae'r darpariaethau'n cyfrannu at anghydraddoldebau o ran canlyniad a phrofiad, mae'r ffynonellau tystiolaeth canlynol wedi cael eu hystyried.

- Trafodaethau helaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 27 Mawrth 2023, a ddaeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Cafwyd 538 o ymatebion, yr oedd 366 ohonynt yn unigryw.
- Comisiynwyd ymarfer ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig. Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai ar ran Llywodraeth Cymru gydag ystod o randdeiliaid allanol a phartneriaid cyflawni posibl allweddol.
- Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol er mwyn esbonio'r newidiadau arfaethedig a chasglu adborth ar y costau a'r manteision disgwyliedig. Ar yr un pryd, gwahoddwyd pob awdurdod lleol i ddarparu mewnbwn drwy gwblhau cyfres o gwestiynau am gostau a manteision ar ffurf arolwg. Cafwyd adborth gan 13 o awdurdodau lleol.
- Cafwyd adborth ar gostau a manteision gan 23 o ysgolion hefyd drwy arolwg. Gwnaed cyswllt cychwynnol â 295 o ysgolion, wedi'u haenu yn ôl darpariaeth gynradd a darpariaeth uwchradd, ardal ddaearyddol a chategori iaith. Roedd y 23 o ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o ysgolion ar draws y categorïau haenedig.
- Roedd cwmpas gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn cynnwys sefydliadau a nodwyd yn y papur gwyn, yn ogystal â'r rhai y byddai'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Cynhaliwyd trafodaeth grŵp â'r Gweithgor Datblygu a Gweithredu Polisi (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau addysg ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolydd awdurdod lleol). C, a chynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg a phedwar darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon.

- Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc drwy weithdai a gynhaliwyd ar ei rhan gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Chwefror 2024. Cymerodd dros 66 o gyfranogwyr rhwng 11 a 18 oed ran yn y gweithdai. Cynhaliwyd y gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a chlybiau ieuenctid mewn sawl awdurdod lleol ledled Cymru. Ystyriodd y gweithdai yr egwyddorion a'r nodau eang sy'n sail i'r Ddeddf. Cynhaliwyd arolwg ansoddol hefyd gan dîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn ystod ei gwrs preswyl ym mis Chwefror 2024. Cymerodd deg person ifanc ran yn yr arolwg, a gwnaeth un ohonynt hynny yn Gymraeg.
- Defnyddiodd yr Asesiad Effaith Integredig ddata a oedd ar gael ar y system addysg yng Nghymru hefyd, gan gynnwys y CYBLD a data TGAU.
- Defnyddiwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg hefyd i feithrin gwell dealltwriaeth o agweddau at y Gymraeg.
- Ffynonellau eilaidd. Mae'r rhai y cyfeirir yn benodol atynt yn y ddogfen hon fel a ganlyn:
  - Llywodraeth Cymru. (2017). Amcangyfrifon siaradwyr Cymraeg 2011 i 2050: adroddiad technegol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2021). Credoau rhieni, eu hymddygiadau a’r rhwystrau y maen nhw’n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2021b). Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2022). Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Llywodraeth Cymru. (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
  - Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru. (2023). Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol. briff mater. Ar-lein.

*Pa wybodaeth a gafwyd trwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig / penderfyniad yn effeithio arnynt ac yn benodol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?*

Roedd ymatebion plant a phob ifanc i weithdai Urdd Gobaith Cymru yn gefnogol tu hwnt i nodau'r Ddeddf ac, yn benodol, y syniad y dylai pob disgybl, ni waeth pa ysgol y mae'n ei mynychu, gael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg yn annibynnol erbyn 16 oed: “Dylai fod dysgu iaith eich gwlad yn hawl” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Bro Morgannwg). Gwnaeth lleiafrif o ymatebwyr gynnwys cafeat yn eu sylwadau cefnogol drwy awgrymu na ddylai dysgu Cymraeg fod yn orfodol: “Ydy, dyle nhw gallu cael siawns i ddysgu Cymraeg os nhw eisiau” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Caerdydd).

Trafododd y cyfranogwyr fanteision dysgu Cymraeg, a phwysleisiodd llawer y manteision cymdeithasol a phroffesiynol: “Gall ehangu eich cyfleoedd gwaith a'ch helpu i gael swyddi gwell yn y dyfodol” (Cyfranogwr mewn Gweithdy, Merthyr Tudful).

Roedd cyfranogwyr hefyd o'r farn bod amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, diwylliannol a phroffesiynol yn gysylltiedig â rhoi cyfle i bob dysgwr ddysgu Cymraeg.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i arolwg ansoddol tîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn credu y dylai disgyblion gael cyfle i ddysgu Cymraeg erbyn iddynt droi'n 16 oed. Gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd dewis, cyfle a thegwch wrth benderfynu dysgu Cymraeg. Hefyd, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod gwerth mewn bod yn siaradwr annibynnol, yn enwedig mewn perthynas â gyrfaoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon na ddylai addysgu Cymraeg gael blaenoriaeth dros addysgu pynciau allweddol megis Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ac na ddylai leihau ansawdd yr addysgu yn y pynciau hynny.

Yn 2017-18, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau am y Gymraeg, gan ystyried hyder siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith yn ogystal ag agweddau at yr iaith ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith. O’r ymatebwyr 16-24 oed, roedd 82% yn cytuno bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono; dywedodd 73% yr hoffent ddysgu Cymraeg; ac roedd 70% yn cytuno bod angen cefnogi'r Gymraeg yn fwy.

*A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?*

Do. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r dadansoddiad o effaith bosibl y Ddeddf ar unigolion â  nodweddion gwarchodedig.

*A yw cymunedau diddordeb a chymunedau lleoedd wedi cael eu hystyried.*

Ydy. Nod y Ddeddf yw gwella mynediad at addysg Gymraeg i bob dysgwr yng Nghymru, waeth beth fo'i gefndir.

Mae'r Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig yn tynnu sylw penodol at gymunedau gwledig sy'n gartref i gyfran a nifer isel o siaradwyr Cymraeg. Efallai y bydd yr ardaloedd hyn yn wynebu heriau ychwanegol o ran recriwtio staff sydd â'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y mater a'r mesurau lliniaru eu trafod yn fanwl yn yr asesiad effaith perthnasol.

*Pa wybodaeth sydd wedi'i hystyried ynglŷn â thueddiadau'r dyfodol?*

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CSCA lleol cymeradwy pob awdurdod lleol ystyried yr heriau a ddisgrifir yng nghynlluniau hirdymor yr awdurdodau ar gyfer y gweithlu. Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yw cynllun deng mlynedd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn *Cymraeg 2050* (gweler Llywodraeth Cymru, 2021b; 2023). Bydd y CSCAau lleol a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn darparu'r dulliau i ddatblygu'r gweithlu a'i wneud yn fwy amrywiol. Mae'r strategaethau hyn hefyd yn cyd-fynd â strategaeth *Cymraeg 2050*, a'i nodau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050, yn unol â'r amcanestyniad a'r taflwybr (gweler Llywodraeth Cymru, 2017).

*Pa ddata sydd wedi'u hystyried (Cenedlaethol a lleol)*

Gweler cwestiwn 1 am amlinelliad o'r dystiolaeth a'r data a ystyriwyd.

Mae CSCAau yn darparu data ar lefel leol, ond mae'r amcanestyniad a'r taflwybr yn strategaeth *Cymraeg 2050* yn ymwneud â'r lefel genedlaethol.

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Gweler cwestiwn 1 am amlinelliad o'r dystiolaeth a'r data a ystyriwyd.

**Sut y gallai'r cynnig waethygu anghydraddoldeb canlyniad ymhellach o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

*Rhowch fanylion ynglŷn ag anghydraddoldebau canlyniad sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio*

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Ddeddf olygu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser mewn ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”, ac yn arbennig mewn ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf o addysg Gymraeg tuag at yr isafswm oriau gofynnol (10%). Mae'n debygol mai dysgwyr yn yr ysgolion hyn fydd â'r lefel isaf o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac a fydd leiaf cyfarwydd â hi. Ar gyfartaledd, mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fynd i'r ysgolion hyn. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi effeithiau’r cynnydd a'r gwelliant mewn addysg Gymraeg yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys y gwell cyfleoedd ond hefyd effaith unrhyw heriau yn yr ysgolion hyn sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o gyflwyno gwersi pynciau ehangach yn Gymraeg, neu cynnydd mewn gwersi Cymraeg (fel pwnc) os bydd hyn yn arwain at elfennau eraill o'r cwricwlwm yn cael eu haddysgu lai.

Mae risg yr effeithir ar addysg ehangach wrth i'r addysg Gymraeg a ddarperir gynyddu, a hynny ar draul elfennau eraill o’r cwricwlwm o bosibl. Mae’r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol o 10% yn gyfystyr ag oddeutu 2.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn ysgolion “Prif Iaith Saesneg, rhannol Gymraeg”, mae'n debygol y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gyflawni gan wersi Cymraeg (pwnc) yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, a sut i wneud hynny'n briodol. Bydd y canllawiau hefyd yn trafod sut a phryd i ehangu darpariaeth yn briodol mewn perthynas ag amrywiaeth o bynciau/meysydd. O ganlyniad, ystyrir mai risg isel yw hon, sydd ag effaith isel y gellir ei lliniaru

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Ddeddf yn cynnig cyfle i wella deilliannau ieithyddol dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i hybu’r addysg Gymraeg yn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth gan rai grwpiau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod angen datblygu gwell dealltwriaeth o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi’u tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy’n cael eu nodi.

Yn fwy cyffredinol, bydd y Ddeddf yn sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn adeiladu ar brofiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol brofiad o ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys y rheini sy’n newydd i Gymru a’r rheini sydd heb lawer o Saesneg. Mae wedi datblygu a theilwra cyrsiau ac adnoddau i helpu pobl i ddysgu

Cymraeg, i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Bydd yr Athrofa yn gallu adeiladu ar y profiad a'r adnoddau sydd eisoes wedi'u datblygu er mwyn cefnogi a galluogi cynllunwyr addysg ac ysgolion i nodi a goresgyn unrhyw rhwystrau sy'n effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr, wrth ddatblygu darpariaeth ymatebol ac effeithiol i bawb.

Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg mewn ysgolion ym mhob ardal, gan arwain at fwy o ddisgyblion mewn addysg statudol ledled Cymru yn cael mwy o ddarpariaeth addysg Gymraeg, a darpariaeth well, gan gyfrannu at hybu'r Gymraeg ym mhob ardal. Bydd y Ddeddf yn creu cyfleoedd i gynllunwyr addysg feithrin dealltwriaeth well o'r rhwystrau sy'n wynebu rhai dysgwyr ar hyn o bryd mewn perthynas â manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac i fynd i'r afael â nhw. Bydd y cyfleoedd hyn, ochr yn ochr ag amrywiaeth o fesurau cefnogi pellach a phenodol yn allweddol er mwyn lliniaru effeithiau negyddol posibl y Ddeddf ar grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd wedi bod yn llai tebygol o fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfartaledd. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Ddeddf yn ehangu mynediad at y Gymraeg, ac yn ymdrin ag unrhyw rwystrau y gall rhai dysgwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Yn ôl data'r CYBLD (Chwefror 2022), mae 13.5% o'r rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu â 23.3% o'r rhai sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg. Mae data'r CYBLD yn awgrymu y gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wynebu rhwystrau, a rhwystrau unigryw neu ychwanegol o bosibl, i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Tabl 2: Nifer a chyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

| Math o ysgol | Nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol |
|---|---:|---:|
| Cyfrwng Cymraeg | 10,451 | 13.5% |
| Dwy ffrwd | 1,477 | 19.8% |
| Trosiannol | 101 | 26.0% |
| Dwyieithog math A | 1,291 | 12.3% |
| Dwyieithog math B | 1,575 | 15.3% |
| Dwyieithog math C | 538 | 18.0% |
| Dwyieithog math Ch | 0 | (z) |
| Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg | 2,003 | 17.7% |
| Cyfrwng Saesneg | 80,293 | 23.3% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Chwefror 2022 (z = ddim yn gymwys)

Gweler cwestiwn 1 am amlinelliad o dystiolaeth a data eraill a ystyriwyd.

**Sut y gallai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

*Rhowch fanylion ynglŷn â chanlyniadau a fydd yn cael eu gwella ac i bwy.*

Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pob plentyn, waeth ble mae'n byw yng Nghymru a waeth beth fo'i gefndir ieithyddol neu gefndir arall, yn cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Ddeddf gyfrannu at yr agenda trechu tlodi drwy roi sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc na fyddent o bosibl wedi cael y cyfle i'w datblygu fel arall. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd yr unigolion hyn yn gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar fwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt. Canfu'r ymarferion ymgysylltu fod gan blant a phobl ifanc farn debyg, a gwelwyd cytundeb i raddau helaeth ymhlith y cyfranogwyr fod gallu yn y Gymraeg yn "sgìl pwysig ar gyfer swyddi yng Nghymru" (un o gyfranogwyr yr ymarferion ymgysylltu).

Ar gyfartaledd, nid yw dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Ddeddf a'r broses o'i roi ar waith yn gyfle i feithrin dealltwriaeth well o pam fod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n cael eu nodi.

Bydd y Cod yn pennu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Pan fyddant yn ymuno â'r farchnad lafur, bydd y lefelau cyfeirio cyffredin yn galluogi pob dysgwr i gyfleu a diffinio ei sgiliau i gyflogwyr yn well, ni waeth ble mae'r cyflogwr na beth yw ei gyd-destun diwylliannol-ieithyddol. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall lefel gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio lefelau cyfeirio cyffredin, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol.

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Gweler cwestiwn 1 am amlinelliad o'r dystiolaeth a'r data a ystyriwyd.

**Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch y canlyniadau ehangach)**

Nodir cynlluniau ar gyfer adolygu ar ôl gweithredu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r polisi yn effeithiol, gan gynnwys ystyried effeithiau posibl ar grwpiau penodol, bydd angen cwblhau asesiad o werthusadwyedd yn ystod y camau cynnar. Bydd hyn yn helpu i nodi natur a chwmpas y rhaglen werthuso ac argaeledd data perthnasol er mwyn monitro cynnydd. Bydd y broses hon hefyd yn cynnig cyfle i ailystyried y Ddamcaniaeth Newid wreiddiol a luniwyd ar gyfer y Ddeddf, rhoi cyfrif am unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi yn ystod y broses ddrafftio ddeddfwriaethol a sicrhau y caiff canlyniadau ac effeithiau bwriadedig ymyriadau polisi gwahanol eu cyfleu a'u nodi'n glir. Ar y sail hon y caiff y broses werthuso ar gyfer y Ddeddf ei llunio.

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Bydd y CYBLD yn darparu data ynghylch pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Atodiad E – Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig

### Disgrifio ac egluro effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau cefn gwlad

*Er enghraifft: Sut fydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl wledig, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Er enghraifft, fel defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a defnyddwyr.*

Nod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yw sicrhau bod pob plentyn, waeth ble mae'n byw yng Nghymru a waeth beth fo'i gefndir, yn cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o newidiadau sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru, darparu adnoddau ar ei chyfer a chefnogi'r gwaith o'i datblygu. Bydd y darpariaethau yn cael effaith gyfyngedig ar bobl yng nghefn gwlad. Bydd yr effaith ar ardaloedd gwledig, a phlant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn benodol, yr un peth ag ardaloedd eraill, a bydd yr effaith dros gyfnod hir oherwydd y newidiadau i addysg Gymraeg mewn ysgolion. Disgwylir y bydd yr effeithiau yn gadarnhaol ar y cyfan, gan y bydd dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, fel pob ardal, yn cael mwy o gyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol.

Yn ogystal, gall y Ddeddf arwain at effaith gadarnhaol bellach ar gymunedau a'r defnydd o wasanaethau mewn cymunedau cefn gwlad. Yn aml mae cymunedau Cymraeg wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig ac maent yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg. Gall fod yn anodd i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ymuno yn y cymunedau a'r lleoliadau hyn. Gellir tarfu ar gydbwysedd ieithyddol y cymunedau, y lleoliadau a'r gwasanaethau, os bydd yn rhaid i drigolion droi at y Saesneg yn rheolaidd. Gyda mwy o gyfleoedd i fwy o bobl ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, bydd mwy o bobl hefyd yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chymunedau Cymraeg ac ymgysylltu â nhw. Gall cael cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol hefyd alluogi plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt.

O ran ardaloedd gwledig, gyda mwy o fynediad, a mynediad haws, at addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n debygol y bydd llai o angen i ddysgwyr deithio ymhell i'r ysgol.

### Recriwtio staff

Fodd bynnag, drwy roi'r darpariaethau ar waith, mae heriau posibl mewn perthynas â recriwtio staff addysgu mewn ardaloedd gwledig.

Yr hyn a fydd yn allweddol i lwyddiant y darpariaethau fydd datblygu gweithlu, dros y tymor hir, sydd â'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y bydd ardaloedd gwledig yn wynebu heriau ychwanegol o ran recriwtio staff a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg Gall ardaloedd gwledig lle mae cyfran a nifer isel o siaradwyr Cymraeg yn byw wynebu heriau penodol, o ystyried ei bod yn fwy tebygol y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol geisio denu staff addysgu i'r ardal.

*Mesurau lliniaru*

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CSCA lleol cymeradwy pob awdurdod lleol ystyried yr heriau a ddisgrifir yng nghynlluniau hirdymor yr awdurdodau ar gyfer y gweithlu. Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yw cynllun deng mlynedd

Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Bydd y CSCAau lleol a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn darparu'r dulliau i ddatblygu'r gweithlu a'i wneud yn fwy amrywiol.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso’r ffordd i bobl o bob oedran ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac yn eu cefnogi i wneud hynny, gan adeiladu ar waddol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr Athrofa yn darparu cymorth i ysgolion ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu haddysg Gymraeg. Mae'r Ganolfan wedi datblygu ei darpariaeth ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae'n bosibl felly y bydd yr Athrofa mewn sefyllfa i roi cyngor ar y ddarpariaeth ar-lein er mwyn ategu addysgu a lleihau unrhyw fylchau hirdymor, ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y model athrawon lleol / darpariaeth beripatetig fel ffordd o wneud y gweithlu addysgu y mae disgyblion yn dod i gysylltiad ag ef yn fwy amrywiol yn y tymor byr. Mae’r Ddeddf yn rhoi mwy o sicrwydd ar gyfer addysg trochi hwyr yn Gymraeg a bydd yn gofyn am fwy o sicrwydd o ran cyllid. Bydd darparwyr trochi hwyr felly mewn sefyllfa i recriwtio staff yn fwy parhaol. Byddant hefyd mewn sefyllfa well i recriwtio staff newydd ac, o ganlyniad, ddenu staff mwy amrywiol o gymharu â'r gweithlu addysgu presennol. Gallai'r darparwyr, drwy eu darpariaeth beripatetig, hefyd geisio canolbwyntio ar wella amrywiaeth y staff y mae dysgwyr yn ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd.

Menter dysgu cyfunol yw e-sgol, sydd â'r nod o gynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein sy'n defnyddio dulliau uniongyrchol, amser real a rhyngweithiol. Drwy ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu electronig gan athrawon cymwysedig a phrofiadol. Gall E-sgol fod yn ffordd bellach o ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion gwledig yn y tymor byr wrth iddynt geisio cynyddu a gwella eu darpariaeth addysg Gymraeg.

# Atodiad F – Asesiad o’r Effaith ar Lwyth Gwaith Staff Addysg Ysgolion

## Crynodeb Gweithredol

Ar y cyfan, rydym yn rhagweld y bydd gweithredu'r Ddeddf yn arwain at rywfaint o waith ychwanegol i arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion, rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu, a swyddogion awdurdodau lleol. Rydym yn cydnabod y bydd angen dod o hyd i gapasiti yn y system i ganiatáu i'r Ddeddf gael ei weithredu mewn ffordd bwrpasol.

Y brif effaith ar lwyth gwaith ysgolion yw mewn perthynas â pharatoi a gweithredu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol. Bydd graddfa a maint y gwaith sydd ei angen yn dibynnu ar (a) y ddarpariaeth addysg Gymraeg gyfredol yn yr ysgol, (b) capsiti sgiliau Cymraeg presennol gweithlu'r ysgol, a (c) yr uchelgais y bydd yr ysgol yn ei osod yn ei chynllun cyflawni o ran cynyddu a/neu wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Bydd llwyth gwaith ychwanegol yn cynnwys:

- **ymgyfarwyddo â darpariaethau, rheoliadau a chanllawiau newydd** – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion, rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu, a swyddogion awdurdodau lleol
- **datblygu ac ymgynghori ar gynllun cyflawni addysg Gymraeg** – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion yn bennaf
- **goruchwylio gweithredu'r cynllun cyflawni** – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion yn bennaf
- **ymgyfarwyddo â dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm/cymhwyster newydd, yn ogystal â hyfforddiant a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth** – rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu yn bennaf
- **sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol, gan oresgyn heriau recriwtio a dargadw posibl** – arweinwyr yn bennaf

Bydd y cynlluniau cyflawni yn ofyniad newydd i ysgolion, gyda'r paratoi'n dechrau yn 2029/30 i'w gweithredu o fis Medi 2030. O dan fusnes fel arfer, efallai y bydd cynllunio tebyg wedi cael ei wneud trwy'r cynllun datblygu ysgolion. Bydd cynlluniau cyflawni yn casglu gwybodaeth mewn ffordd fwy cyson ar draws ysgolion i hwyluso cymorth wedi'i dargedu ar lefel genedlaethol.

Yn y tymor hwy, trwy safoni dulliau, mae'r Ddeddf yn ceisio gwneud y prosesau cynllunio yn fwy effeithlon ac i gymryd llawer llai o amser, gan leihau llwyth gwaith o bosibl. Disgwylir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg hefyd arwain at effeithlonrwydd, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad, a thrwy ddatblygu adnoddau newydd.

Ffurflen Asesiad Effaith Llwyth Gwaith

1. **Disgrifiwch eich cynnig, gan gynnwys os yw hyn o ganlyniad i newid statudol neu anstatudol:**

- **i. Os yw hwn yn newid i bolisi / system / proses / canllawiau / prosiect presennol, amlinellwch y trefniadau presennol ac yna amlinellwch y newidiadau.**
- **ii. Os yw hwn yn bolisi / system / proses / canllawiau / prosiect newydd, yna manylwch ar sut y bydd hyn yn gweithio a pha newidiadau y bydd yn eu cyflwyno.**
- **iii. Yn gyffredinol, pwy fydd yn cael budd o’r polisi hwn / newid ac ym mha ffordd?**

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae hyn yn galw am newidiadau trawsnewidiol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg yn gyffredinol, ac yn benodol rôl addysg. Mae'r Ddeddf yn nodi camau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i fod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg statudol.

I grynhoi, mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys:

- Darparu sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol.
- Paratoi Cod a fydd yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR).
- Sefydlu system statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y swm o addysg Gymraeg a ddarperir, gyda nodau dysgu Cymraeg ar gyfer disgyblion ym mhob categori.
- Cysylltu cynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdodau lleol (drwy osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg (CSCAau lleol)), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg).
- Sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel corff statudol sy'n gyfrifol am gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg.

**Newidiadau i gynllunio, adnoddau a chefnogi ysgolion i gynyddu a gwella addysg Gymraeg**

Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf â chynllunio, adnoddau a chefnogi datblygiad addysg Gymraeg mewn ysgolion ledled Cymru. Bydd newidiadau i gynllunio addysg a'r gweithlu. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion mewn sefyllfa well i gynllunio'n effeithiol ar gyfer mwy o addysg Gymraeg a gwell addysg Gymraeg ym mhob ysgol a

lleoliad a gynhelir yng Nghymru, a thrwy hynny effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion yn dysgu’r Gymraeg. Gydag eglurder ar ddarpariaeth iaith a nodau dysgu ym mhob categori iaith ysgol, bydd ysgolion mewn sefyllfa well i gynllunio a datblygu eu darpariaeth a'u gweithlu dros amser drwy eu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan y ddealltwriaeth gyffredin a ddarperir gan y Cod, a fydd yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar gyfer pob oedran, gan gynnwys disgyblion a gweithlu'r ysgol. Mae'r CSCAau lleol, ochr yn ochr â Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen mewn ysgolion dros amser. Byddant hefyd yn caniatáu cynllunio effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â dysgwyr sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Bydd Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn darparu cydlyniant strategol i ddatblygiad addysg Gymraeg ledled Cymru, gyda'r holl awdurdodau lleol yn fwy ymwybodol o'r cyfraniad penodol a phriodol y gallant ei wneud i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr a chyson i awdurdodau lleol o'r disgwyliadau arnynt o ran cynyddu a gwella addysg Gymraeg a chynyddu canran y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg mewn ysgolion categori "Prif Iaith - Cymraeg". Bydd hefyd yn cefnogi cynllunio'r gweithlu addysg i sicrhau bod uchelgeisiau'r Ddeddf yn cael eu gwireddu. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn nodi camau i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol i gyrraedd targedau perthnasol a amlinellir yn y Ddeddf.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Bydd yr Athrofa yn siop un stop ar gyfer cefnogi pob agwedd ar ddysgu’r Gymraeg. Bydd yn darparu arweinyddiaeth strategol a chefnogaeth i ddysgu Cymraeg gydol oes ar lefel genedlaethol. Bydd canoli arweinyddiaeth strategol ac arbenigedd o fewn un corff yn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o ddysgu’r Gymraeg. Bydd ganddo gyfrifoldeb am sicrhau bod dysgu a throsglwyddo'r Gymraeg yn cael sylw dyledus o fewn y system addysg gyfan, gan gynnwys yn y sector ysgolion. Bydd hyn yn helpu pob ysgol i gwrdd â'r heriau o gynyddu a gwella addysg Gymraeg, gan fod o fudd i bob dysgwr yng Nghymru yn y pen draw.

**Newidiadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**

Bydd effaith ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i'r newidiadau i gynllunio, adnoddau a chefnogi ysgolion, a fydd yn esblygu dros gyfnod estynedig o amser. Bydd yr effaith yn gadarnhaol i raddau helaeth, gan y bydd dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol.

Bydd y Ddeddf yn cynyddu ac yn gwella addysg Gymraeg mewn ysgolion, gan arwain at fwy o ddisgyblion mewn addysg statudol ledled Cymru yn cael mwy a gwell darpariaeth addysg Gymraeg. Bydd y Ddeddf yn creu cyfleoedd i gynllunwyr addysg ddeall yn well pam mae rhai grwpiau yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodwyd. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Ddeddf yn ehangu mynediad i'r Gymraeg ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau y gallai rhai dysgwyr eu hwynebu.

Bydd rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynghylch addysg plant. Bydd categoreiddio iaith ysgol yn rhoi eglurder i rieni/gwarcheidwaid a dysgwyr ar ddarpariaeth iaith ysgolion yn eu hardal a'r nodau dysgu Cymraeg. Bydd gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau yn eu CSCAau lleol i hyrwyddo a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Prif Iaith - Cymraeg" yn gwella dealltwriaeth o'i manteision. Ar ben hynny, bydd hyrwyddo a darparu addysg trochi hwyr yn Gymraeg yn ehangu mynediad i'r Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad. Bydd hyn o fudd arbennig i deuluoedd a dysgwyr sy'n symud i'r system addysg yng Nghymru yn ddiweddarach yn eu bywyd ysgol.

Bydd darparu eglurder a diffinio'r nodau dysgu Cymraeg i ddisgyblion erbyn diwedd yr oedran ysgol gorfodol ym mhob categori iaith ysgol yn arwain at effaith gadarnhaol a chyfleoedd i ddysgwyr, mewn cyflogaeth ac yn eu bywydau bob dydd. Bydd unigolion sy'n dod i'r gweithlu yn gallu mynegi a diffinio eu gallu iaith, a bydd cyflogwyr yn gallu tynnu ar lefelau cyfeirio cyffredin, yn gyson ag arferion gorau rhyngwladol. Gyda mwy o unigolion yn ymuno â'r gweithlu gyda gwell sgiliau Cymraeg, efallai y bydd busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector mewn sefyllfa well i gynnig gwasanaethau Cymraeg, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac i adlewyrchu a gwasanaethu'r cymunedau ieithyddol amrywiol yng Nghymru yn well.

**Crynodeb**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a yw darpariaethau allweddol yn y Ddeddf yn newid polisi presennol neu'n cyflwyno polisi newydd, y newidiadau allweddol sy'n cael eu gwneud a phwy fydd yn elwa ac ym mha ffordd.

**Tabl 1: Newidiadau polisi allweddol a gyflwynwyd gan y Ddeddf a phwy fydd yn elwa**

| **Darpariaethau allweddol y** Ddeddf **(rhan y** Ddeddf**)** | **A yw'r** Ddeddf **yn darparu...?** **Newid polisi presennol** | **Cyflwyno polisi newydd** | **Beth yw'r newidiadau allweddol sy'n cael eu gwneud yn y maes polisi hwn?** | **Pwy fydd yn elwa ac ym mha ffordd?** |
|---|---|---|---|---|
| Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith (Rhan 1) | X | | Bydd y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn cael ei newid o nod anstatudol i darged statudol. | Bydd ymgorffori'r targed mewn deddfwriaeth sylfaenol yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar gyflawni'r targed ac yn darparu eglurder a chyfeiriad i'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio addysg orfodol. |
| Cod i sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg (Rhan 2) | | X | Ar hyn o bryd mae rhanddeiliaid yn defnyddio amrywiaeth o fframweithiau ar gyfer diffinio a mesur sgiliau Cymraeg. Bydd y Cod yn darparu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu Cymraeg yn seiliedig ar y CEFR. | Bydd y Cod yn rhoi dealltwriaeth gyffredin i ddysgwyr, rhieni, athrawon a chyflogwyr o'r gallu iaith a ddisgwylir ym mhob cam o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg. Ym maes addysg, bydd gwell gysondeb yn cefnogi cynllunio addysg Gymraeg a'r gweithlu, yn ogystal â datblygu arferion addysg, asesu ac adnoddau. |
| Sefydlu system statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl swm o addysg Gymraeg a ddarperir. (Rhan 3) | X | | Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y canllawiau anstatudol presennol ar gyfer categoreiddio ysgolion a gyflwynwyd yn 2021 ac yn gosod y system o gategoreiddio ysgolion ar sail statudol. Mae swm yr addysg Gymraeg sydd i'w darparu ym mhob categori iaith yn cael ei nodi, gan gynnwys isafswm. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu nodau dysgu Cymraeg ar gyfer disgyblion ym mhob categori. | Bydd y system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn sicrhau aliniad â darpariaethau eraill y Ddeddf, gan ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu addysg Gymraeg yn unol â'u categori. Bydd yn rhoi eglurder ar addysg Gymraeg a nodau dysgu i ysgolion, gan eu rhoi mewn gwell sefyllfa i gynllunio a datblygu eu darpariaeth a'u gweithlu dros amser. Ynghyd â darpariaethau eraill y Ddeddf, bydd yn rhoi cyfle i bob dysgwr yng Nghymru ddod yn siaradwr Cymraeg annibynnol erbyn iddynt adael addysg statudol. Bydd yn rhoi eglurder i rieni a gofalwyr ar addysg Gymraeg a nodau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dysgu ym mhob ysgol, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn ag addysg eu plant. |
| Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg (Rhan 3) | X | | Mae ysgolion eisoes yn paratoi cynlluniau datblygu ysgolion, ond mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i fodloni gofynion newydd sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Bydd y cynlluniau cyflawni, ymhlith pethau eraill, yn nodi sut y bydd ysgolion yn cynyddu neu'n gwella eu haddysg Gymraeg yn barhaus ac, os byddant yn dewis gwneud hynny, sut y byddant yn symud dros amser i gategori iaith uwch. | Bydd ysgolion mewn gwell sefyllfa i ddatblygu eu haddysg a'u gweithlu Cymraeg dros amser. Bydd gwell cynllunio ar lefel ysgol yn cefnogi dysgu Cymraeg holl ddysgwyr, pa bynnag gategori iaith yr ysgol y maent yn eu mynychu, gan sicrhau bod ganddynt fwy o ddarpariaeth addysg Gymraeg a gwell darpariaeth addysg Gymraeg. |
| Hyrwyddo a darparu addysg trochi hwyr yn Gymraeg (Rhan 3) | X | | Mae grant wedi cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu addysg trochi hwyr yn y Gymraeg ers 2021/22. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i hyrwyddo a darparu addysg trochi hwyr sy'n cwrdd â'r galw. | Bydd hyrwyddo a darparu addysg trochi hwyr yn y Gymraeg yn ehangu mynediad at y Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad. Bydd hyn o fudd arbennig i deuluoedd a dysgwyr sy'n symud i'r system addysg yng Nghymru yn ddiweddarach yn eu bywyd ysgol. |
| Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg (Rhan 4) | | X | Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith canolog na throsfwaol ar gyfer cydlynu addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg mewn gwahanol sectorau ac ar wahanol gyfnodau o fywyd. Trwy'r Fframwaith Cenedlaethol, yr uchelgais polisi yw symud tuag at un system gyfunol, gyda thargedau a chanllawiau penodol wedi'u gosod gan Weinidogion Cymru. | Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn darparu cydlyniant strategol i ddatblygiad addysg Gymraeg ledled Cymru. Bydd yn creu llinell gliriach o atebolrwydd rhwng Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion mewn perthynas ag addysg Gymraeg. Bydd awdurdodau lleol yn fwy ymwybodol o'u cyfraniad at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd ganddynt hefyd fwy o eglurder ar y disgwyliadau ohonynt o ran cynyddu a gwella addysg Gymraeg. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cefnogi cynllunio'r gweithlu addysg Gymraeg ac yn nodi camau i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael. |
| Cynlluniau Strategol Lleol | X | | Bydd y Ddeddf yn newid y system bresennol o CSCAau drwy symud y ffocws tuag at | Bydd y CSCAau lleol yn cefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen mewn ysgolion dros amser i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg mewn Addysg (Rhan 4) | | | gynlluniau sy'n amlinellu'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r targedau a osodwyd arnynt gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cynyddu a gwella addysg Gymraeg yn eu hysgolion.<br><br>Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol lle mae awdurdodau lleol yn gosod eu targedau eu hunain, o ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn sicrhau cydlynu polisi addysg Gymraeg yn well ledled Cymru. | gyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf, yn seiliedig ar y targedau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol. Byddant hefyd yn caniatáu cynllunio effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â dysgwyr sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. |
| Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Rhan 5) | X | | Bydd y Ddeddf yn sefydlu corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>Bydd hyn yn newid o'r sefyllfa bresennol, lle mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn goruchwylio'r ddarpariaeth o ddysgu Cymraeg i bobl dros 16 oed, ond nid oes un corff sy'n darparu arweinyddiaeth strategol a chefnogaeth i ddysgu Cymraeg ar draws pob oedran. | Bydd yr Athrofa yn canoli arweinyddiaeth strategol ac arbenigedd o fewn un corff, gan sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o ddysgu y Gymraeg. Bydd yn helpu pob ysgol i gwrdd â'r heriau o gynyddu a gwella addysg Gymraeg, gan fod o fudd i bob dysgwr yng Nghymru yn y pen draw. |

2. **Rhowch asesiad o effaith eich cynnig ar lwyth gwaith staff addysg yn erbyn pob un o'r canlynol:**

i. **Sut ydych chi wedi adeiladu asesiad o effaith llwyth gwaith yn y cynnig hwn?**

Mae amrywiol ymarferion ymgysylltu wedi llywio'r asesiad hwn o'r effaith ar lwyth gwaith.

**Ymgysylltu â phartneriaid**

Mae asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith wedi'i lywio gan ymgysylltu â'r partneriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio, fel rhan o ddatblygu'r Ddeddf a chan dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod craffu cyhoeddus ar y Bil ar ôl ei gyflwyno yn y Senedd. Cynhaliwyd trafodaethau gydag undebau sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg ysgol yn hydref 2024. Mae cynrychiolwyr partneriaid sydd â diddordeb yn y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wedi cael cyfle i drafod cynllunio a gwireddu'r ddarpariaeth hon fel aelodau o Grŵp Gorchwyl. Bu ymgysylltiad ag ysgolion ynglŷn â'r system categoreiddio iaith yng nghyd-destun y canllawiau anstatudol. Cynhaliwyd trafodaethau gydag Estyn am eu rôl arfaethedig. Mewn fforymau addysg, croesawodd awdurdodau lleol – partneriaid allweddol ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol –y syniad o Lywodraeth Cymru yn gosod cyfeiriad strategol, i raddau helaeth. Roedd tystiolaeth gan bartneriaid allweddol yn llywio adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y pryd, a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu 'fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg'. Mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu at ddarpariaethau sy'n ymwneud â CSCAau drwy ddatblygu a gweithredu'r CSCAau presennol a darparu adborth ar y system honno. Manteisiodd pedwar awdurdod lleol ar y cyfle i gyfrannu at ddatblygu canllawiau ynghylch dadansoddi data a chynllunio'r gweithlu addysg. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gydag ymarferwyr yn y sector addysg statudol ac ôl-statudol, awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, prifysgolion yn eu rôl fel darparwyr darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion ac fel canolfannau ar gyfer ymchwil a chaffael iaith, a sefydliadau Addysg Bellach am gymorth i wireddu amcanion y Ddeddf.

**Ymgynghoriad ffurfiol ar y papur gwyn**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 27 Mawrth 2023, a ddaeth i ben ar 16 Mehefin 2023. Cafwyd 538 o ymatebion, 366 ohonynt yn unigryw. Mae'r crynodeb o'r ymatebion yn tynnu sylw at rai pryderon ynghylch llwyth gwaith. Roedd y materion allweddol yn cynnwys heriau staffio yn ymwneud â sicrhau digon o athrawon â sgiliau Cymraeg i gefnogi'r newidiadau arfaethedig. Nododd ymatebwyr yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff presennol. Nodwyd baich gweinyddol cynyddol i ysgolion ac awdurdodau lleol wrth weithredu a monitro newidiadau hefyd.

**Ymarfer ymgysylltu i gefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, comisiynwyd ymarfer ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar ran Llywodraeth Cymru gydag amrywiaeth o randdeiliaid allanol a phartneriaid cyflawni allweddol posibl.

Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol i esbonio'r newidiadau arfaethedig ac i gasglu adborth ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl. Ar yr un pryd, gwahoddwyd pob awdurdod lleol i roi mewnbwn trwy gwblhau cyfres o gwestiynau ar gostau a buddion mewn fformat arolwg. Cafwyd adborth gan 13 awdurdod lleol.

Cafwyd adborth ar gostau a buddion hefyd gan 23 o ysgolion trwy arolwg. Gwnaed cyswllt cychwynnol â 295 o ysgolion, wedi'u haenu yn ôl darpariaeth gynradd ac uwchradd, ardal ddaearyddol a chategori iaith. Roedd y 23 ymateb yn cynnwys ystod o ysgolion ar draws y categorïau haenedig.

Ymestynnodd ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu hwnt i awdurdodau lleol ac ysgolion i gwmpasu sefydliadau a nodwyd yn y papur gwyn, yn ogystal â'r rhai a oedd yn debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig. Cynhaliwyd trafodaeth grŵp gyda'r Gweithgor Datblygu a Gweithredu Polisi (sydd â chynrychiolaeth gan undebau addysg ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolydd awdurdod lleol), a chynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg, a phedwar darparwr Addysg Gychwynnol Athrawon.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r ymarferion ymgysylltu hyn wedi llywio asesiad o effaith y Ddeddf ar lwyth gwaith. Mae materion sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol yn ffocws allweddol i'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Paratoi'r asesiad effaith llwyth gwaith**

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ymhlith y cyntaf i gynnwys asesiad effaith llwyth gwaith penodol fel rhan o'i IIA. Roedd yr ymarferion ymgysylltu a chasglu tystiolaeth a nodir uchod yn llywio'r asesiad. Cynhaliwyd mapio trylwyr yn fewnol o'r effeithiau ar lwyth gwaith ar gyfer pob rhan o'r Ddeddf. Ochr yn ochr â datblygu'r asesiad hwn, bu ymgysylltiad ag undebau addysg a roddodd sylwadau ar yr ymarfer mapio mewn cyfarfodydd ac yn ysgrifenedig yn hydref 2024. Mae'r fersiwn hon o'r asesiad effaith wedi'i diweddaru i ystyried yr ymarfer mapio.

**ii. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw ynglŷn â'r cynnig hwn i asesu'r effaith ar lwyth gwaith, e.e. penaethiaid, athrawon, awdurdodau lleol, undebau addysg?**

Isod ceir crynodeb o'r prif ymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol sydd wedi helpu i lywio'r asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith, ar gyfer gwahanol rannau o'r Ddeddf:

**Disgrifio gallu yn y Gymraeg**

- Mae cynrychiolwyr partneriaid sydd â diddordeb yn y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wedi trafod cynllunio a gwireddu'r ddarpariaeth hon fel aelodau o Grŵp Gorchwyl
- Ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion yn y papur gwyn

**Addysg Gymraeg**

- Ymgysylltu ag ysgolion am y system categoreiddio iaith yng nghyd-destun y canllawiau anstatudol
- Ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion yn y papur gwyn
- Er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol i gasglu adborth ar effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ac arolwg ar gostau a manteision
- Arolwg o ysgolion i lywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach i lywio'r IIA a'r RIA (undebau addysg, CLlLC, Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg, Darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon)
- Ymgysylltu rheolaidd ag undebau addysg ar asesu effaith llwyth gwaith

**Cynllunio addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg**

- Roedd tystiolaeth gan bartneriaid allweddol yn llywio adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu 'fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg'
- Adborth awdurdodau lleol ar y system CSCA bresennol. Manteisiodd pedwar awdurdod lleol ar y cyfle i gyfrannu at ddatblygu canllawiau ynghylch dadansoddi data a chynllunio'r gweithlu addysg
- Trafodaethau gydag Estyn am eu rôl arfaethedig
- Ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion yn y papur gwyn
- Er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol i gasglu adborth ar effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ac arolwg ar gostau a manteision
- Arolwg o ysgolion i lywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach i lywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (undebau addysg, CLlLC, Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg, Darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon)
- Ymgysylltu rheolaidd ag undebau addysg ar asesu effaith llwyth gwaith

**Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

- Trafodaethau gydag ymarferwyr yn y sector addysg statudol ac ôl-statudol, awdurdodau lleol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, prifysgolion yn eu rôl fel darparwyr

darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion ac fel canolfannau ar gyfer ymchwil a chaffael iaith, a sefydliadau Addysg Bellach

- Ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion yn y papur gwyn

### iii. Beth yn y cynnig yw gwaith gwahanol neu ychwanegol neu lai o waith i staff addysg?

Mae Tabl 2 yn darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer pob un o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf ar yr hyn a fydd yn cynyddu neu'n lleihau llwyth gwaith y gweithlu addysg.

Yn gyffredinol, mae'r prif effaith ar lwyth gwaith a nodwyd ar gyfer ysgolion mewn perthynas â pharatoi a gweithredu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol. Bydd y cynlluniau cyflawni yn ofyniad newydd i ysgolion. Fodd bynnag, o dan fusnes fel arfer, byddai rhywfaint o'r wybodaeth wedi cael ei choladu, ac mewn llawer o ysgolion efallai y byddai cynllunio tebyg wedi cael ei gynnal, trwy'r cynllun datblygu ysgolion. Un o nodau'r cynllun cyflawni yw casglu gwybodaeth mewn ffordd fwy cyson ar draws ysgolion er mwyn hwyluso cymorth wedi'i dargedu ar lefel genedlaethol (e.e. hyfforddiant, adnoddau addysgu ac ati). Efallai y byddai llwyth gwaith ychwanegol i benaethiaid i sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Mewn rhai ysgolion, efallai y bydd angen uwchsgilio sgiliau Cymraeg staff ysgolion yn unol ag unrhyw uchelgais y cytunwyd arno yn y cynllun cyflawni. Mewn rhai achosion, gallai prinder ymgeiswyr â'r sgiliau angenrheidiol olygu bod angen i benaethiaid ail hysbysebu swyddi gwag ar sawl achlysur. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn rhaid i benaethiaid hefyd ymgymryd ag ailstrwythuro yn seiliedig ar sgiliau Cymraeg staff. Efallai y bydd gwaith ychwanegol hefyd i staff addysgu ymgyfarwyddo â dulliau newydd a chymhwyso dulliau newydd yn yr ystafell ddosbarth. Bydd graddfa a maint y gwaith sydd ei angen yn dibynnu ar (a) y ddarpariaeth addysg Gymraeg gyfredol yn yr ysgol, (b) gallu sgiliau Cymraeg presennol gweithlu'r ysgol, a (c) yr uchelgais y bydd yr ysgol yn ei osod yn ei chynllun cyflawni o ran cynyddu a/neu wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y cynlluniau yn debygol o ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2029/30, gyda gweithredu'r cynlluniau yn dechrau ym mis Medi 2030.

Nid oes disgwyl i osod targedau ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol gynyddu llwyth gwaith y gweithlu addysg. Disgwylir i'r gwaith ar baratoi'r CSCAau lleol newydd arwain at effaith lleiaf ar lwyth gwaith i swyddogion awdurdodau lleol, o ystyried y bydd yn disodli'r gwaith presennol i raddau helaeth.

Bydd rhywfaint o waith ychwanegol i staff addysg penodol ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf, megis y Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, a darpariaethau, is-ddeddfwriaeth a chanllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl swm o addysg Gymraeg a ddarperir, CSCAau lleol a chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Os byddant yn dewis ymateb i ymgynghoriadau ar reoliadau neu ganllawiau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, gall hyn hefyd gynnwys rhywfaint o waith ychwanegol.

Fodd bynnag, nod y Ddeddf hefyd yw symleiddio'r gweithgareddau presennol sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg, a fydd yn helpu i leihau llwyth gwaith swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion, a phenaethiaid. Trwy safoni dulliau, mae'r Ddeddf yn ceisio gwneud y prosesau cynllunio yn fwy effeithlon ac i gymryd

llawer o amser. Dros amser, disgwylir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg hefyd arwain at effeithlonrwydd, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad, a thrwy ddatblygu adnoddau newydd. Gall hyn hefyd helpu i leihau effaith llwyth gwaith.

**iv. Ar gyfer pwy yn benodol mae hyn mynd i greu gwaith ychwanegol ar eu cyfer neu leihau gwaith ar eu cyfer?**

Mae Tabl 2 yn darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer pob un o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf ar lwyth gwaith pwy sy’n debygol o gynyddu neu leihau.

Bydd y Ddeddf yn creu gwaith ychwanegol yn bennaf i swyddogion awdurdodau lleol, penaethiaid, llywodraethwyr ysgolion, a rhai athrawon, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau penodol am gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg. Bydd angen i bawb ymgyfarwyddo â gofynion newydd sy'n berthnasol i'w rolau, ac efallai y bydd rhai yn penderfynu ymateb i ymgynghoriadau ar reoliadau neu ganllawiau.

Ar gyfer cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion, a fydd yn cael y brif effaith ar lwyth gwaith, bydd penaethiaid yn gweithio i baratoi, ymgynghori arnynt a gweithredu cynlluniau cyflawni, gan gynnwys sicrhau bod gan y staff y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Bydd llywodraethwyr ysgolion yn gweithio i oruchwylio cynlluniau cyflawni. Efallai y bydd gwaith ychwanegol i rai staff addysgu ymgyfarwyddo â dulliau newydd a chymhwyso dulliau newydd yn yr ystafell ddosbarth, ac o bosibl i uwchsgilio yn yr iaith Gymraeg.

Bydd graddfa'r effaith ar lwyth gwaith yn amrywio ar draws ysgolion yn dibynnu ar (a) y ddarpariaeth addysg Gymraeg gyfredol yn yr ysgol, (b) capasiti sgiliau Cymraeg cyfredol gweithlu'r ysgol, a (c) yr uchelgais y bydd yr ysgol yn ei osod yn ei chynllun cyflawni o ran cynyddu a/neu wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol, efallai y bydd rhywfaint o lwyth gwaith ychwanegol yn gysylltiedig â newidiadau bach yn y gofynion ar gyfer CSCAau; hyrwyddo a darparu addysg trochi hwyr yn Gymraeg; ac ymgysylltu ag ysgolion ynglŷn â'u cynlluniau cyflawni.

**v. Pa waith presennol sy'n cael ei atal, ei oedi neu ei ddisodli?**

Mae Tabl 2 yn darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer pob un o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf ar ba waith presennol fydd yn cael ei stopio, ei oedi, ei ddisodli neu ei addasu.

Nid yw disgwyl i lawer o ddarpariaethau'r Ddeddf arwain at newidiadau sylweddol i lwyth gwaith gan y byddant yn disodli systemau a phrosesau presennol. Yn gyffredinol, nod y Ddeddf yw safoni a symleiddio gwaith presennol, gan leihau tasgau diangen a chaniatáu i randdeiliaid ganolbwyntio ar weithgareddau mwy effeithiol.

Bydd y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn disodli'r defnydd o fframweithiau gallu iaith presennol. Bydd y system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl swm o addysg Gymraeg a ddarperir yn disodli'r system gategoreiddio anstatudol bresennol. Bydd gwaith ar baratoi'r CSCAau newydd yn disodli'r gwaith presennol ar baratoi CSCAau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Er y bydd paratoi a gweithredu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgol yn cael y brif effaith ar lwyth gwaith, bydd rhywfaint o'r gwaith hwn hefyd yn disodli ac yn

addasu gwaith presennol. Er enghraifft, bydd y gwaith presennol i gynllunio a chyflawni'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, gan gynnwys drwy gynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau/gwaith Siarter Iaith, yn cael ei gyfuno yn y cynllun cyflawni. Fodd bynnag, bydd y graddau y bydd y newidiadau yn disodli'r gwaith presennol yn amrywio rhwng ysgolion, yn dibynnu ar faint o waith presennol sy'n digwydd i gynllunio, darparu a goruchwylio addysg Gymraeg.

**vi. A oes unrhyw waith presennol yn cael ei addasu ac os felly, sut y bydd hyn yn effeithio ar lwyth gwaith?**

Mae Tabl 2 yn darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer pob un o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf ar ba waith presennol fydd yn cael ei stopio, ei oedi, ei ddisodli neu ei addasu.

Mae adran 2v. yn crynhoi'r systemau presennol a'r prosesu a fydd yn cael eu disodli o dan y Ddeddf. Yn yr achosion hyn, bydd rhywfaint o waith presennol y gweithlu addysg yn cael ei addasu i fodloni gofynion newydd. Y prif effaith ar lwyth gwaith y gweithlu addysg, ar wahân i'r agweddau hynny sy'n ymwneud â darpariaethau penodol a ddisgrifir yn fanylach yn adran 2iii. ac yn Nhabl 2, mae'r angen i ymgyfarwyddo â gofynion newydd, ac ymateb i ymgynghoriadau os ydynt yn dewis gwneud hynny.

**Tabl 2: Effaith pob un o'r darpariaethau allweddol yn y** Ddeddf **ar lwyth gwaith y gweithlu addysg**

| **Darpariaeth y** Ddeddf | **Pa newidiadau yn y llwyth gwaith (cynnydd neu ostyngiad) fydd yn deillio o'r** Ddeddf**?** | **Pwy fydd yn cael ei effeithio gan y newidiadau llwyth gwaith hyn?** | **Pa dasgau presennol fydd yn cael eu stopio, eu seibio, eu disodli, neu eu haddasu?** |
|---|---|---|---|
| Cod i sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg | Yn ystod y cyfnod paratoi ac ymgyfarwyddo, bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion a staff ysgolion ymgyfarwyddo â dull y Cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg er mwyn datblygu eu CSCAau lleol a'u cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn y drefn honno.<br>Dros amser, gall y Cod arwain at effeithlonrwydd drwy ddarparu fframwaith cryfach ar gyfer addysgu ac asesu'r Gymraeg, mwy o eglurder i'r gweithlu addysg, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau addysg Cymraeg priodol. | Yn bennaf swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion, penaethiaid, athrawon (yn bennaf y rhai sydd â chyfrifoldebau penodol dros gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg).<br>O bosibl cynorthwywyr addysgu a staff cymorth/gweinyddol, lle mae'n berthnasol i'w rôl. | Bydd y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn disodli fframweithiau gallu iaith presennol. Bydd gwaith swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion, a phenaethiaid yn cael ei addasu wrth iddynt symud o weithio gyda fframweithiau presennol i weithio gyda'r Cod newydd.<br>Dros amser, bydd cyflwyno'r Cod yn darparu fframwaith cryfach ar gyfer addysgu ac asesu'r Gymraeg, mwy o eglurder i'r gweithlu addysg, ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau addysg Cymraeg priodol. |
| System statudol i gategoreiddio ysgolion yn ôl swm yr addysg Gymraeg a ddarperir | Yn ystod y cyfnod paratoi ac ymgyfarwyddo, bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol ymgyfarwyddo â chynnwys darpariaethau a chanllawiau cysylltiedig. Efallai y bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid ymgysylltu â'i gilydd ynglŷn â'r newidiadau, yn ôl yr angen. Os ydynt o'r farn ei fod yn angenrheidiol, efallai y byddant yn ymateb i ymgynghoriadau ar reoliadau neu ganllawiau. | Yn bennaf swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid. | Bydd y system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl swm yr addysg Gymraeg a ddarperir yn disodli'r system gategoreiddio anstatudol bresennol. |
| Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion | Yn ystod y cyfnod paratoi ac ymgyfarwyddo, bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd.<br>Bydd llywodraethwyr ysgolion, penaethiaid ac o bosib athrawon penodol yn ymgymryd â gwaith i baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. | Yn ystod y cyfnod paratoi ac ymgyfarwyddo, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid yn bennaf, ond hefyd swyddogion | Bydd peth o'r gwaith i baratoi a chyflawni'r cynlluniau yn disodli ac yn addasu gwaith presennol.<br>Bydd gwaith presennol staff yr ysgol i gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth addysg Gymraeg (gan gynnwys drwy gynlluniau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn ystod y cyfnod gweithredu, efallai y bydd rhywfaint o waith newydd i lywodraethwyr ysgolion wrth oruchwylio gweithredu, i benaethiaid wrth weithredu'r cynllun cyflawni, a staff addysgu wrth gyflwyno'r cynllun i'r graddau y mae'n berthnasol i'w rôl.<br><br>Efallai y bydd llwyth gwaith ychwanegol i benaethiaid i sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Mewn rhai ysgolion, efallai y bydd angen uwchsgilio sgiliau Cymraeg staff ysgolion yn unol ag unrhyw uchelgais y cytunwyd arno yn y cynllun cyflawni. Mewn rhai achosion, gallai prinder ymgeiswyr gyda'r sgiliau angenrheidiol olygu bod penaethiaid yn gorfod ail hysbysebu swyddi gwag ar sawl achlysur. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i benaethiaid ymgymryd ag ailstrwythuro yn seiliedig ar sgiliau Cymraeg staff. Mae potensial am waith ychwanegolwrth i staff addysgu ymgyfarwyddo ag unrhyw ddulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm/cymhwyster newydd, yn ogystal â hyfforddiant a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth. Disgwylir i hyn gael ei wrthbwyso i raddau gan y cymorth a'r adnoddau newydd y bydd staff ysgol yn cael mynediad atynt o ganlyniad i'r Cod ac arbenigedd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Bydd maint y gwaith ychwanegol i staff ysgolion yn ystod y camau paratoi a gweithredu cychwynnol yn amrywio rhwng ysgolion, yn dibynnu ar yr uchelgais a nodir yn eu cynlluniau cyflawni o ran cynyddu a gwella eu darpariaeth addysg Gymraeg yn ogystal â'u sefyllfa bresennol o ran a) cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg, b) swm o addysg Gymraeg a ddarperir, ac c) capasiti sgiliau Cymraeg y gweithlu.<br><br>Er nad yw'n ddyletswydd benodol yn y Ddeddf, disgwylir y bydd swyddogion awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag ysgolion yn ystod y cyfnod gweithredu i ddarparu cefnogaeth a sicrhau bod digon o gynnydd, gan y bydd hyn yn allweddol i gyrraedd targedau CSCAau lleol. Fodd bynnag, mae ymgysylltu ag ysgolion ynglŷn â'u haddysg Gymraeg eisoes yn digwydd mewn llawer o achosion. | awdurdodau lleol ac athrawon penodol o bosibl. Wrth baratoi ac ymgynghori ar y cynlluniau, tybir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn disgyn i'r pennaeth, gyda llywodraethwyr ysgolion yn cefnogi'r broses ymgynghori.<br><br>Yn ystod y cyfnod gweithredu, penaethiaid a staff addysgu yn bennaf, ond hefyd llywodraethwyr ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol | datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau/gwaith Siarter Iaith) yn cael ei gyfuno yn y cynllun cyflawni. Efallai y bydd rhai cyrff llywodraethu eisoes yn goruchwylio darpariaeth addysg Gymraeg eu hysgol yn rhagweithiol (gan gynnwys unrhyw gynlluniau/gwaith Siarter Iaith). Fodd bynnag, bydd y graddau y bydd y newidiadau yn disodli'r gwaith presennol yn amrywio rhwng ysgolion, yn dibynnu ar faint o waith presennol sy'n digwydd i gynllunio, darparu a goruchwylio addysg Gymraeg.<br><br>Dylai llawer o awdurdodau eisoes fod yn ymgysylltu ag ysgolion ar eu darpariaeth addysg Gymraeg, yn enwedig lle maent wedi gweithio gydag ysgolion i fapio categorïau iaith ysgol cyfredol yn erbyn y disgrifyddion CYBLD diwygiedig. Bydd y cynlluniau cyflawni yn darparu dull cyson ar gyfer parhau â'r gwaith hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysg trochi hwyr yn Gymraeg | Mae gan bob awdurdod lleol ddarpariaeth trochi hwyr ar waith eisoes, a fydd yn parhau. Fodd bynnag, yn ystod y paratoi a'r ymgyfarwyddo, efallai y bydd gwaith pellach i swyddogion awdurdodau lleol annog galw am drochi hwyr, darparu gwybodaeth a chyngor am y ddarpariaeth sydd ar gael, ac o bosibl cynyddu'r ddarpariaeth i ateb y galw.<br>Bydd maint unrhyw waith pellach yn dibynnu ar ffactorau fel y ddarpariaeth bresennol a lefelau galw yn y dyfodol. | Swyddogion awdurdodau lleol yn bennaf. Llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid i raddau bach iawn. | Mae'r ddarpariaeth hon yn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol. Bydd maint unrhyw waith pellach yn dibynnu ar ffactorau fel y ddarpariaeth bresennol a lefelau galw yn y dyfodol. |
| Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg | Nid oes disgwyl i osod targedau ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol arwain at unrhyw gynnydd sylweddol neu ostyngiad mewn llwyth gwaith y gweithlu addysg. | Amherthnasol | Bydd angen i swyddogion ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o osod targedau, gan gynnwys ymateb i ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol o dan y fframwaith statudol presennol ar gyfer paratoi CSCAau.<br>Efallai y bydd angen i lywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â gosod targedau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Unwaith eto, byddai hyn yn disodli'r gwaith presennol. |
| Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg | Bydd gwaith ar baratoi CSCAau newydd yn disodli'r gwaith presennol ar baratoi CSCAau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Ni ddisgwylir, felly, iddynt arwain at unrhyw gynnydd sylweddol neu ostyngiad mewn llwyth gwaith y gweithlu addysg. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod paratoi ac ymgyfarwyddo, bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol ymgyfarwyddo â gofynion y cynlluniau newydd. Efallai y bydd hefyd ychydig o waith parhaus ychwanegol i swyddogion awdurdodau lleol oherwydd newidiadau bach yn y gofynion, megis y pwyslais ar awdurdodau lleol yn cynllunio eu gweithlu addysg | Swyddogion awdurdodau lleol | Bydd gwaith ar y system CSCA lleol newydd yn disodli'r gwaith presennol ar baratoi CSCAau i raddau helaeth o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.<br>Efallai y bydd angen i lywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â CSCAau lleol. Fodd bynnag, byddai hyn<br>yn disodli gwaith presennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Dros amser, disgwylir i sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn darparu arweinyddiaeth strategol ganolog ac arbenigedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg, arwain at effeithlonrwydd. Gallai cefnogaeth, arweiniad a datblygiad adnoddau o ansawdd uchel oll helpu i leihau llwyth gwaith y gweithlu addysg. | Athrawon a chynorthwywyr addysgu yn bennaf | Mae'r canllawiau, y gefnogaeth a'r adnoddau a ddatblygwyd gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi'u seilio ar y Cod, yn debygol o leihau rhywfaint o'r cynllunio a datblygu adnoddau y mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn eu gwneud ar hyn o bryd. |

**vii. Ydych chi wedi ystyried ffyrdd eraill o wneud hyn a'ch casgliadau?**

Ystyriwyd amrywiaeth o opsiynau amgen i benderfynu a ellid cyflawni cyfran fawr o'r manteision disgwyliedig o'r 'opsiwn a ffefrir' ar gyfer gwahanol rannau o'r Ddeddf trwy opsiwn amgen. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd effaith amrywiol opsiynau ar lwyth gwaith yn ystyriaeth yn y broses hon.

**viii. Os oes effaith amlwg ar lwyth gwaith, beth sy'n cael ei roi ar waith i liniaru hyn ac am ba hyd?**

Er mwyn lleihau a rheoli effaith llwyth gwaith, bydd y Ddeddf yn cael ei weithredu'n raddol dros gyfnod estynedig. Bydd elfennau cyntaf y cyflwyno yn gosod y cyfeiriad strategol:

- Disgwylir i'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg gael ei gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2026, a disgwylir ymgynghoriad yn hydref 2025.
- Disgwylir i reoliadau a chanllawiau ynghylch categorïau iaith ysgol a CSCAau lleol gael eu creu erbyn Gorffennaf 2027.
- Bydd rhaid cwblhau'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf erbyn Gorffennaf 2028 fan bellaf.

Bydd awdurdodau lleol yn paratoi eu CSCAau lleol newydd o fis Awst 2028 ymlaen, i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru erbyn mis Gorffennaf 2029. Mae hyn yn darparu o leiaf dair i bedair blynedd i awdurdodau lleol ddechrau paratoi ar gyfer newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Bydd disgwyl i ysgolion baratoi eu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg o fis Awst 2029 ymlaen, i'w cymeradwyo gan yr awdurdod lleol erbyn Gorffennaf 2030 a'u rhoi ar waith erbyn **mis Medi 2030**. Mae hyn yn darparu o leiaf bedair i bum mlynedd i ysgolion ddechrau paratoi ar gyfer newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

O ran lliniaru pellach, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i ysgolion wneud cais am eithriad dros dro (hyd at 3 blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o hyd at 3 blynedd arall) i'r gofyniad i ddarparu addysg Gymraeg yn unol â'u categori iaith, lle mae angen mwy o amser i gyrraedd yr isafswm statudol.

**ix. A oes unrhyw atebion technolegol yn gysylltiedig â'r polisi hwn a allai leihau llwyth gwaith staff ysgol?**

Nid oes unrhyw beth wedi'i nodi ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn cael ei adolygu.

**x. A yw cyfnod prawf wedi'i ystyried ar gyfer y polisi neu'r newid hwn ac os na, pam lai?**

O ystyried bod y newidiadau dan sylw yn ddeddfwriaethol, nid yw cyfnod prawf yn bosibl.

Fodd bynnag, mae llawer o ddarpariaethau y Ddeddf yn adeiladu ar systemau presennol, megis y CSCAau cyfredol a chanllawiau anstatudol ar gyfer categorïau ysgolion. Mae hyn yn golygu bod y darpariaethau hyn wedi cael eu treialu yn effeithiol dros nifer o flynyddoedd ac yn ymgorffori'r adborth, y 'gwersi a ddysgwyd' a'r gwerthusiadau o brofiadau hyd yma. Mae'r Ddeddf felly yn adeiladu ar sylfaen gadarn.

Bydd y Ddeddf hefyd yn cael ei weithredu'n raddol dros gyfnod estynedig, gyda chyfleoedd i ymgysylltu ac ymgynghori ar wahanol agweddau ar weithredu. Mae yna hefyd ddarpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth ddewisol, sy'n darparu hyblygrwydd i

bennu neu ddiwygio elfennau penodol, yn ôl yr angen, wrth i amgylchiadau'n newid. Mae gan ddarpariaethau allweddol, gan gynnwys y Fframwaith Cenedlaethol, CSCAau lleol a chynlluniau cyflawni ysgolion amserlen benodol hefyd, ac ar ôl hynny byddant yn cael eu hadolygu a'u diweddaru, gan ganiatáu i ddysgu gael ei ymgorffori dros amser fel rhan arferol o'r broses.

**3.1. Rhowch asesiad o effaith eich cynnig ar lwyth gwaith y staff addysg a restrir isod ac, lle bo'n bosibl, amcangyfrif o faint o oriau ychwanegol yr wythnos y gall y newid hwn ei gynnwys neu faint o oriau a arbedwyd. Ystyriwch hefyd yr effaith o amgylch cyfrifoldebau, er enghraifft, arweinwyr canol, ADY a hefyd ystyried a oes unrhyw faich penodol ar unrhyw un o'r rhai sydd wedi'u rhestru.**

**i. Arweinwyr**

Mae'r brif effaith a nodwyd ar lwyth gwaith arweinwyr mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno cynllun cyflawni addysg Gymraeg eu hysgol. Er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r gofynion newydd, bydd gwaith newydd i ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a'r canllawiau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys deall perthnasedd lefelau gallu iaith i gategori iaith eu hysgol yn ogystal â chanfod lefelau gallu iaith gweithlu eu hysgol yn unol â'r Cod, yn debyg i'r gwaith a wneir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Bydd angen ymgyfarwyddo â darpariaethau, rheoliadau a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys ar gategorïau iaith ysgol a chynlluniau cyflawni, ac efallai y byddant yn dewis ymateb i ymgynghoriadau.

Bydd angen i benaethiaid baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau cyflawni, a byddant yn arwain ar eu gweithredu. Bydd peth o'r gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith. Er nad yw'r heriau'n newydd, gallai cynyddu addysg Gymraeg olygu llwyth gwaith ychwanegol i sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Er enghraifft, gallai llwyth gwaith ychwanegol fod mewn recriwtio, cydlynu rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant sgiliau Cymraeg, neu mewn rhai achosion ailstrwythuro yn seiliedig ar sgiliau Cymraeg staff.

Bydd graddfa a maint y gwaith sydd ei angen yn dibynnu ar a) y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn yr ysgol ar y pryd; b) capasiti sgiliau Cymraeg gweithlu'r ysgol ar y pryd; ac c) yr uchelgais a nodir yng nghynllun cyflawni'r ysgol ynglŷn â chynyddu neu wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amcangyfrifon rhesymol o gostau gweithredu'r Ddeddf. At ddibenion darparu amcangyfrif rhesymol o gost fesul ysgol o baratoi a gweithredu cynlluniau cyflawni, defnyddir cyflog pennaeth er symlrwydd. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod y gall staff addysg amrywiol gyfrannu at ymgymryd â'r dasg hon. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd gwaith ychwanegol ar y cynlluniau cyflawni angen 0.1 Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) (cyflog prifathro) am chwe mis ar gyfer iteriad cyntaf y cynllun cyflawni a thri mis ar gyfer pob iteriad dilynol. Mae hwn yn amcangyfrif yn hytrach na disgwyliad, ac rydym yn cydnabod y gall llwyth gwaith ychwanegol fod yn uwch i rai ysgolion ac yn is i eraill.

Fodd bynnag, nod y Ddeddf hefyd yw symleiddio'r gweithgareddau presennol sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg, a fydd yn helpu i leihau'r llwyth gwaith ychwanegol i staff addysg, gan gynnwys arweinwyr. Trwy safoni dulliau, mae'r Ddeddf yn ceisio gwneud prosesau cynllunio yn fwy effeithlon ac i gymryd llai o amser. Dros amser, disgwylir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg hefyd arwain at effeithlonrwydd, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad, a thrwy ddatblygu adnoddau newydd. Gall hyn hefyd helpu i leihau llwyth gwaith ychwanegol.

### ii. Athrawon

Efallai y bydd llwyth gwaith ychwanegol i rai athrawon, yn bennaf y rhai sydd â chyfrifoldeb penodol am gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg. Efallai y bydd angen i'r athrawon hyn ymgyfarwyddo â'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a chymryd rhan mewn trafodaethau gydag arweinwyr ynghylch gofynion newydd eraill y Ddeddf. Bydd yn ofynnol i athrawon ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a'r canllawiau cysylltiedig fel y mae'n berthnasol i'w rôl.

Wrth baratoi cynlluniau cyflawni, gall yr athrawon hyn gefnogi arweinwyr. Wrth gyflwyno'r cynlluniau, efallai y bydd angen i athrawon fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw gofynion cwricwlwm neu gymhwyster newydd. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd. Efallai y bydd angen i rai athrawon uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg i gefnogi gweithredu'r cynllun cyflawni.

Fodd bynnag, disgwylir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg arwain at effeithlonrwydd dros amser, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad i staff addysg, a thrwy ddatblygu adnoddau newydd. Gall hyn helpu i leihau llwyth gwaith ychwanegol.

### iii. Cynorthwywyr Addysgu

Ni disgwylir cynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai cynorthwywyr addysgu, lle mae'n benodol berthnasol i'w rôl, ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a'r canllawiau cysylltiedig, yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau ar lefel ysgol ar gynllun cyflawni addysg Gymraeg.

Wrth gyflwyno'r cynllun, os yw'n berthnasol i'w rôl, efallai y bydd angen i gynorthwywyr addysgu fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm neu gymhwyster newydd. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd. Efallai y bydd angen i rai cynorthwywyr addysgu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg i gefnogi gweithredu'r cynllun cyflawni.

### iv. Staff cymorth / gweinyddol

Ni ragwelir unrhyw gynnydd penodol mewn llwyth gwaith ar gyfer staff Cymorth / Gweinyddol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt gefnogi arweinwyr gyda gwaith ychwanegol, yn ôl yr angen. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt gefnogi gyda chydlynu rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant sgiliau Cymraeg a sicrhau ôl-lenwi. Efallai y bydd angen iddynt hefyd gynnal tasgau gweinyddol mewn perthynas â pharatoi cynlluniau cyflawni a chadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch categorïau iaith ysgol.

### v. Llywodraethwyr

Mae'r prif effaith a nodwyd ar lwyth gwaith llywodraethwyr ysgolion mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r gofynion newydd, bydd gwaith newydd i ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a'r canllawiau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys deall perthnasedd lefelau gallu iaith i gategori iaith eu hysgol yn ogystal â chanfod lefelau gallu iaith gweithlu eu hysgol yn unol â'r Cod, yn debyg i'r gwaith a wneir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Bydd angen ymgyfarwyddo â darpariaethau, rheoliadau a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys ar gategorïau iaith ysgol a chynlluniau cyflawni, ac efallai y byddant yn dewis ymateb i ymgynghoriadau.

Er y tybir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar baratoi cynlluniau cyflawni yn disgyn i'r arweinwyr, bydd y corff llywodraethu yn cymryd rôl strategol, gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi penaethiaid i ymgynghori ar y cynllun cyflawni. Efallai y bydd gwaith ychwanegol hefyd i lywodraethwyr ysgolion wrth oruchwylio gweithrediad y cynllun cyflawni gan yr ysgol. Efallai y bydd rhai cyrff llywodraethu eisoes yn goruchwylio darpariaeth addysg Gymraeg eu hysgol, gan gynnwys unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith.

**3.2. Beth fydd y cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i staff addysg ei wneud nad ydynt eisoes yn ei wneud? Gwahaniaethwch eto rhwng bob un o'r categorïau canlynol:**

**i. Arweinwyr**

Y brif ddarpariaeth yn y Ddeddf a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr wneud rhywbeth nad ydynt eisoes yn ei wneud yw paratoi a chyflwyno cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg eu hysgol. Er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r gofynion newydd, bydd gwaith newydd i ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a chanllawiau ar gategorïau iaith ysgol a chynlluniau cyflawni.

Bydd angen i arweinwyr baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau cyflawni, a byddant yn arwain ar weithredu eu cynlluniau cyflawni. Bydd peth o'r gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith.

**ii. Athrawon**

Gall rhai athrawon, yn bennaf y rhai sydd â chyfrifoldeb penodol am gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg, gefnogi arweinwyr i baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg (er y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol). Efallai y bydd angen i'r athrawon hyn ymgyfarwyddo â'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Wrth gyflawni'r cynlluniau, efallai y bydd angen i'r athrawon hyn hefyd fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm neu gymhwyster newydd. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd.

**iii. Cynorthwywyr Addysgu**

Efallai y bydd angen i rai Cynorthwywyr Addysgu, y mae'n benodol berthnasol i'w rôl, ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a'r canllawiau cysylltiedig. Efallai y bydd angen i'r Cynorthwywyr Addysgu hyn fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a / neu unrhyw gwricwlwm neu ofynion cymhwyster newydd. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd.

**iv. Staff cymorth / gweinyddol**

Nid oes disgwyl i'r Ddeddf ei gwneud yn ofynnol i staff Cymorth / Gweinyddol wneud unrhyw beth newydd nad ydynt eisoes yn ei wneud.

**v. Llywodraethwyr**

Y brif ddarpariaeth yn y Ddeddf a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion wneud rhywbeth nad ydynt eisoes yn ei wneud yw paratoi a chyflwyno cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg eu hysgol. Er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r gofynion newydd, bydd gwaith newydd i ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod a chanllawiau ar gategorïau iaith ysgol a chynlluniau cyflawni. Bydd llywodraethwyr ysgolion yn cefnogi arweinwyr i ymgynghori ar y cynllun cyflawni a goruchwylio gweithrediad y cynllun cyflawni gan yr ysgol. Bydd peth o'r

gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith.

**3.3. Beth fydd y cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i staff addysg newid am rywbeth y maent eisoes yn ei wneud? Gwahaniaethu rhwng pob un o'r categorïau canlynol:**

**i. Arweinwyr**

Addasu'r gwaith presennol a wneir fel rhan o baratoi cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith: bydd cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn ofyniad statudol newydd, yn gymorth i sicrhau cysondeb ar draws ysgolion yn eu dull o gasglu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer eu darpariaeth addysg Gymraeg. Fodd bynnag, bydd peth o'r gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau Siarter Iaith.

Integreiddio asesiad sgiliau Cymraeg: Bydd angen i arweinwyr integreiddio'r asesiad o sgiliau Cymraeg i'w cynllunio rheolaidd o'r gweithlu, yn debyg i'r gwaith presennol a wneir mewn perthynas â Chyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion.

**ii. Athrawon**

Dulliau addysgeg: Efallai y bydd angen i rai athrawon, yn bennaf y rhai sydd â chyfrifoldeb penodol am gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg, fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm neu gymhwyster newydd. Gallai hyn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd.

**iii. Cynorthwywyr Addysgu**

Dulliau addysgol: Efallai y bydd angen i rai cynorthwywyr addysgu, yn bennaf y rhai y mae'n benodol berthnasol i'w rôl, fabwysiadu dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw gofynion cwricwlwm neu gymhwyster newydd. Gallai hyn gynnwys ymgyfarwyddo, hyfforddi a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth, gyda chefnogaeth adnoddau newydd.

**iv. Staff cymorth / gweinyddol**

Ni ragwelir unrhyw newidiadau i'r gwaith y mae staff cymorth / gweinyddol eisoes yn ei wneud.

**v. Llywodraethwyr**

Addasu gwaith presennol a wneir fel rhan o baratoi cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau neu waith Siarter Iaith: bydd Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn ofyniad statudol newydd, yn cynorthwyo i sicrhau cysondeb ar draws ysgolion yn eu dull o gasglu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer eu darpariaeth addysg Gymraeg. Fodd bynnag, bydd peth o'r gwaith hwn yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau Siarter Iaith.

**3.4 Beth (os unrhyw beth) y bydd y cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i staff addysg roi'r gorau i'w wneud? Gwahaniaethwch rhwng pob un o'r categorïau canlynol:**

**i. Arweinwyr**

Bydd peth o'r gwaith ar gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau Siarter Iaith.

**ii. Athrawon**

Efallai y bydd angen i rai athrawon, yn bennaf y rhai sydd â chyfrifoldeb penodol am gydlynu neu ddarparu addysg Gymraeg, roi'r gorau i'w gwaith ar ddulliau addysgeg presennol a/neu ofynion cwricwlwm neu gymwysterau, lle mae'r rhain yn cael eu haddasu o ganlyniad i'r Ddeddf.

**iii. Cynorthwywyr Addysgu**

Efallai y bydd angen i rai cynorthwywyr addysgu, yn bennaf y rhai y mae'n benodol berthnasol i'w rôl, roi'r gorau i'w gwaith ar ddulliau pedagogaidd presennol a/neu ofynion cwricwlwm neu gymwysterau, lle mae'r rhain yn cael eu haddasu o ganlyniad i'r Ddeddf.

**iv. Staff cymorth / gweinyddol**

Dim wedi'i nodi

**v. Llywodraethwyr**

Bydd peth o'r gwaith ar gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn disodli'r gwaith presennol a wnaed fel rhan o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu ysgolion ac unrhyw gynlluniau Siarter Iaith.

**3.5. Yn benodol mewn perthynas â'r newid, beth fydd y cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i staff addysg barhau i wneud? Gwahaniaethwch rhwng pob un o'r categorïau canlynol:**

**i. Arweinwyr**

Cynllunio a goruchwyliaeth strategol: Bydd arweinwyr yn parhau â'u rolau mewn cynllunio strategol a goruchwylio mewn perthynas â darpariaeth addysg Gymraeg, gan sicrhau bod eu hysgol yn bodloni'r gofynion.

Cynllunio'r gweithlu: Bydd arweinwyr yn parhau i gynllunio eu gweithlu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau Cymraeg cywir, gan gynnwys recriwtio, strwythurau staffio a datblygiad proffesiynol.

Ymgysylltu: Bydd arweinwyr yn parhau i ymgysylltu â swyddogion awdurdodau lleol ynglŷn â'u darpariaeth addysg Gymraeg a gyda rhieni ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael yn eu hysgol.

**ii. Athrawon**

Cwricwlwm, asesu a chymwysterau: Bydd athrawon yn parhau i ddarparu gofynion cwricwlwm, asesu a chymwysterau Cymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg Byddant yn parhau i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg myfyrwyr.

Datblygiad Proffesiynol: Bydd athrawon yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol i wella eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'u sgiliau Cymraeg, yn ôl yr angen.

**iii. Cynorthwywyr Addysgu**

Cwricwlwm, asesu a chymwysterau: Bydd cynorthwywyr addysgu yn parhau i gefnogi gofynion cwricwlwm, asesu a chymwysterau'r Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddant yn parhau i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg myfyrwyr.

**iv. Staff cymorth / gweinyddol**

Ni nodwyd unrhyw newidiadau.

**v. Llywodraethwyr**

Llywodraethu a goruchwylio: Bydd llywodraethwyr ysgolion yn parhau â'u rôl wrth gefnogi arweinwyr gyda chynllunio a goruchwylio mewn perthynas â darpariaeth addysg Gymraeg, gan sicrhau bod eu hysgol yn bodloni gofynion.